CAS GAN GYTHRAUL

NEU

ANNOGAETH

I bawb ochelyd myned

I ymghynghori a Dewiniaid,

Brudwyr, a Chonſyrwyr.

gydac

EGLURHAD

Ynghylch y perigl mawr ſydd o fyned i ymghynghori a hwynt,

a

CHRYBWYLLIAD

Ynghylch llawer o arferion a thraddo diadau drygionus, ſydd yn cael eu harferyd yn NGhymru

---

Argraphwyd yn *Amwythig* gan *J. Rogers* Gwerthwr Llyfrau.

BRITISH MUSEUM

AT Y DARLLENYDD.

Y Cymru hawddgar yr achos mwya am cyn-hyrfodd i oſſod allan y Llyfr hwn, ydyw o herwydd fy môd yn gwybod fod llawer o rai angrhefyddol yn eich myſg, yn myned i ganlyn Dewiniaid, a Swyngyfareddwyr &c. O Herwydd er fod y cyfryw rai yn an aml, etto er hyn lle bytho un o honynt, llawer iawn a fydd yn arferol o gyrchu attynt o bell ac agos; Mi a ddymmunais ar rai Gwyr dyſgedig o'm cydnabyddieth oſſod allan Lyfr or fath hwn, o herwydd fy mod yn buriadu y gallent eu wneuthur yn amgenach na'm fi, eithr pan na chymmerent y cyfryw beth yn llaw, fi amcenais trwy gennad Duw i gyflawni oreu ac allwn fy hunan, yn hyttrach na i fod heb gyflawni gan neb, ac os bydd i neb gymmeryd y fath orchwyl yn llaw a goſſod allan Lyfr or fath ac a fytho mewn gwell trefn: bydded hyddyſg ir cyfryw y bydd da genny f, o herwydd nid ydyw'r hyn wyf fi gwedi i wneuthur yn rhwyſtr i eraill wneuthur i amgenach, ac os mynnwch wybod pa ham yr wyf yn goſſod allan y Llyfr hwn tan yr enw (Cas gan Gythrau!) yr achos yw hyn, ſef o herwydd y caſineb y ddarfu ir Diafol a'i Swyddogion ſef y dewiniaid ar ſynwyr i ddangos tuac attaf a thu ac at y Llyfr hwn. O herwydd yr ail o fis Medi 1711. bu i mi yr noſwaith honno (ar allaf gofio'r noſwaith honno ydoedd) pan y cefais beth aneſmwythder

ar

ar boreu trannoeth yr ydoedd lluniau anſerth hyll gwedi i gwneuthur ar Wydr y Ffeneſtr wrth ba un yr oeddwn yn Scrifennu y Llyfr hwn; rhan or cyfryw beth hyll ſydd etto iw ganfod, ac yr oedd llun rhyw fath o Anghenfil hyll gwedi ei oſſod ar y rhan hynny or Gwydr ac oedd gyferbyn am hwyneb pan y byddwn yn Scrifennu: er nad oedd dim iw ganfod arno'r Dydd or blaen, etto ni chafodd gennad i wneuthur niweid im Pappurau na dim arall oedd gennyf yno; eithr pa un a bod yſtrange hwn gwedi wneuthur gan Sattan i geiſio fy nychrynu, rhac goſſod allan y Llyfr hwn: neu par beth oedd i amcan nid wyf fi yn gwybod eithr trugaredd fawr oedd im gael fy ngwared rhagddo ſiccr ydyw y dymmunau'r diafol na byddau i neb gael i hannog i ymadel ai ffyrdd ef; ac nid rhyfedd o herwydd fel y dywaid Mr. Perkins *fod un o bilerau ei deyrnas ef yn cael i chynal i fynu gan hudoliaid a* dewiniaid.

Ym mhellach mi a allwn amlygu i chwi pa gaſineb, a ddarfu eu rai ac ſydd yn cael eu gadel i bod yn ddewiniaid, &c. Ei ddangos tuac atoch, eithr gadawaf hynny heibio yr tro hwn

eich ufudd Waſanaethwr,

Mis Medi y 15. 1711.

T. P.

CAS GAN GYTHRAUL

YPerigl mawr o fyned i ymghynghori a Dewiniaid brudwyr a chonſurwyr a ymddengys.

1. Oddiwrth y bygythion ofnadwy y mae Duw yn ei rhoddi yn erbyn y cyfryw rai.

2. Y Dialeddau ar coſpedigaethau ſydd trwy Rhagluniaeth Duw yn fynych yn dyfod ar y cyfryw rai.

Y bygythion ydynt y rhai ſy'n canlyn, Levit. 20. 6. *Ar dyn a dro ar ol dewiniaid, a brudwyr, i buteinio ar ei hôl hwynt, goſſodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw hefyd, a thoraf ef ymaith o fyſc ei bobl.* Deut. 18. 10, 11, 12. *Na chaffer ynot a wnelo iw fab, neu ferch fyned trwy'r tân neu a arfero ddewiniaeth, na Phlanedydd, na darogan wr, na hudol, na Swyn-wr Swynion nac a geiſio wybodaeth gan gonſuriwr, neu frudiwr, nac a ymofyno ar meirw o herwydd ffieidd-dra gan yr Arglwydd dy Dduw yw pawb a wnelo hyn: ac o achos y ffieidd-dra hyn y mae'r Arglwydd dy Dduw yn eu gyrru hwynt allan o'th flaen di.* *Adnod y* 14. *Canys* y cehedloedd hyn y rhai a feddienni di a wrandawſant ar blanedyddion ac ar ddewiniaid: ond am danat ti nid felly y caniattâodd yr Arglwydd dy

dy Dduw i ti, ac yn llyfr y Datcuddiad y mae'r Swyngyfaredd-wyr yn cael ei cyfri yn *myſc y rhai a fydd a'i rhan yn y llyn ſydd yn lloſgi a than a Brwmſtan. Dat.* 21. 8. *Gal.* 5. 20, 21. Fe ddylau hyn megis taranau oſnadwy ddychrynu dynion rhag myned i ymgynghori ar fath rai.

2. Peth arall a ddylau attal dynion rhag myned at ddewiniaid, *&c.* Ydyw'r dialeddau ar felldith ſydd yn arferol o ganlyn y cyfryw rai yn y bywyd hwn, heblaw'r perigl maent yntho mewn perthynas ir byd ſydd i ddyfod heb ddifrifol Edifeirwch pa byddau ond y Siampl hynny ynghylch y Brenin *Saul* yn unig ſe ddylau fod yn ddigon i annog dynion i roddi heibio'r fath arferion drwg ar fath ffyrdd gythraulig, o herwydd medd y Scrythur felly y bu farw *Saul* am ei gamwedd a wnaethau yn erbyn gair yr Arglwydd, yr hwn ni chadwaſau ef ac am iddo ymgynghori a dewines i ymofyn a hi. Ac ſe ellir gweled fod y ſawl a fytho yn myned at ddewiniaid a chonſurwyr ynghylch yr hyn a fythont gwedi ei golli o'i cyfoeth ſynychaf, ni bydd ond y felldith ar atlwydd gwyllt yn dyfod ar ol hynny, ar yr hyn a feddant. A rhai hynny a fytho yn myned neu yn anfon troſtynt eu hunain neu tros eu tylwyth at y cyfryw rai tuacat gael help yw cletydau (ac er y byddant ymbell waith yn cael help ac eſmwythder tros ychydig;) etto yr ydys

ys yn dal ſulw y bydd y cyfryw rai ac ſydd yn arferol o geiſio cynnhorthwy dewiniaid, a Swyngyfa redd-wyr, yn ſwy anhwylus ar ol hynny, ac odid na bydd ant yn y cyfryw Deuluoedd yn glafycca er mynyched y byddant yn canlyn ei dewiniaid a'i Swynwyr.

Rhai eraill ac ſydd yn arferol o ymgynghori ar cyfryw rai mewn perthynas i geiſio rhagflaenu perygl neu aflwydd fynychaf bydd hynny yn prifio i fod yn achos iddynt ſyrthio ir perygl a fyddont yn ceiſio dengyd rhagtho, fel y Brenin hwnnw, pa un a anfonodd un o'i weiſion ar ddewines, i ymofyn, pa hyd y byddeu efe byw, dywedodd y ddewines na fyddau fyw yn heppell, eithr y lleddyd ef gan gyfaill anwyl, gofynodd pwy a'i lladdau ef, dywedodd hithau tydi a'i lleddi ef, barnodd fod yn berygl us iddo ddatcuddio atteb y Ddewines, rhac cael ei ladd ei hunan, a phan ddeuallodd nad allau ef yn hir ei gelu oddiwrth y Brenin, efe a laddodd y Brenin, rhac ir Brenin ei ladd ef, pan cafau wybod pa'r beth a ddywedaſau'r ddewines, *Buch. Hiſt. Scot.*

Aeth Milwr ar ddewin i geiſio cael gwybod pa hyd y byddau byw, dywedodd y Dewin y byddau farw yn mhen tri diwrnodd, lladiodd y Milwr wrth y dewin wrth glywaid hyn, tynnodd ei gleddyf a lladdodd y Dewin ac am ben tri diau cafodd ei grogi. *Clar Examp.*

Etto

Etto na ddiſgwiliaid neb ſod dialeddau yn y bywyd hwn yn waſtadol yn canlyn gweithredwyr anwiredd; o herwydd ſod dydd mawr o gyfri yn ol hyn, a digon o amſer *yn* nhragywyddoldeb, i ddioddef coſpedigaeth on i ddychwelant; etto chwi eillwch weled y diniſtr a ddaeth ar lawer o herwydd myned at ddewiniaid, ac o herwydd rhoddi eu hyder ar ddaroganau'r, o herwydd hyn y cafodd plant Iſrael eu Hadd a'i caethiwo ddengmlyneed a thri ugain. *Jer.* 27. 10. Ar Brenhin *Ahab* ei lâdd yn y rhyfel. Ar Canaaneaid eu diniſtrio o wlad Canaan, *Deut.* 18. 12. y mae *Buchanan* yn dangos i un or Scots godi mewn bradwriaeth yn erbyn ei Frenin; O herwydd ſod dewiniaid yn ei annog ef, trwy ddywedyd y byddau iddo gael ei Gorroni yn Frenin ar *Scotland*, eithr bu i'r Scots ei ddal ef, ac yn lle ei goroni yn Frenin fal y dywedaſau'r dewiniaid dodaſant ef i farwolaeth echrydus trwy roddi megis coron neu cap o hauarn poeth ar ei ben ef, meddyliwch drachefn pa niwaid a gafodd y Cymru trwy rhoddi ei hyder ar ddaroganau Myrddyn.

Ac yn mhellach yſtyriwch y diſtryw ofnadwy a ddaeth i lawer o ddynion ieuainge o ſyned i ymgynghori a dewiniaid a brudwyr ynghylch eu teſni, o herwydd wedi hyn hwy a dybiant nad allant wrthſefyll na gwrthnebu dim ar a fythont wedi ei ddywedyd

edyd wrthynt; ac os y Dewin a ddywaid enw, neu ddull y fath a briodant yn enwedig wrth rai Merched iefainge, ac os rhai or fath, ac a dampwynwyd gan y Dewin, a ddaw i ymofyn, pwy a ddychon eu hattal i wirio geiriau'r dewin a chrofewi eu ffortyn, meddant hwy, er yſcadfydd y dychon yr un a fytho gwedi ei dampwynio gan y dewin yn rhy fynych fod yn oferddyn, yn feddwyn, neu'n ddrwg-weithredwr, ac yr ydwyf yn gwybod am un ae a-*eth at ddarllenwr teſni*, ac efe a ddywedodd y byddau iddi fod yn anniwair ac am ben ychydig hi a gyflawnodd ei eiriau ef, er na buaſau iddi un drwg-air or blaen, a pha ham na ddychon y meibion neu'r merched hynny, ac a fytho yn ewyllyſgar i ymollwng i un bai, fod mor ewyllyſgar i fai arall, fal y gallwn roddi llawer o ſiamplau ofnadwy o berthyd bagad a fyddau yn fwy rhydd i ymoſtwng ir hyn a fae drwg, ar ol ymgynghori a dewiniaid; eithr y dyn duwiol yr hwn trwy râs a Mabwyſiad ſydd yn blentyn i Dduw; medd ef nid oes na hawddfyd, nac adfyd, a ddaw i'm fi ond yr hyn a fytho fy Nhad Nefawl yn ei drefnyd i mi trwy ei Ragluniaeth (bychan ydyw'r amcan ſydd gan y cyfryw un am fyned i ymgynghori a dewiniaid ynghylch ei *deſni*) eithr medd ef yr hyn a wnelo fy Nhad nefawl yn oreu im fi, a welaf fi yn oreu im fi fy hunan, fe a fodlona'r dyn duwiol i Dduw

drefnyd iddo'r hyn a fyno, O herwydd y mae yn plygu ac yn gogwyddo ei ewyllys ei hun at wyllys Duw, gan hyderu y bydd iddo ei ddenu yn nes-nes atto ei hun yn mhob cyflwr, ac mae yn gwybod tra fytho iddo geisio Teyrnas Duw a'i gyfiawnder yn gyntaf y bydd iddo gael pob peth arall yn ychwaneg.

O herwydd hyn pa mor ddiwyd y dylau Rhieni a Phenteuluodd fod, i gynghori eu Plant ai Tylwyth, au hannog i ochelyd myned at ddewiniaid, brudwyr, a darllenwyr *resni*. Ac i ymofyn y gwir at dad y celwydd, O herwydd at y diafol y maent yn myned, er eu bod yn cymmeryd y dewin rhyngddynt ac ef.

Ac yn ddiwaethaf y mae'r neb a fytho yn ymgynghori a dewiniaid yn colli eu (credyt) a'i henw da, ac fe ddylau pawb ou cymmydogion edrych ar y cyfryw rai yn ddynion enbydus digydwybod.

Weithian, y cyngor fydd gennyf ir cyfryw rai, ydyw ceilio ganthynt newid eu Meistr, ac os ydynt yn canfod eu clwyf, ceisient drachefn olygu'r meddig a ddychon eu hiachau a rhoent heibio eu harferion drwg rhag-llaw.

Y mae yn ddyledus ar bob dyn fod yn ufydd wasanaethwr ir Duw Holl-alluog, ac y mae gwedi ymrwymo i fod felly, ac y mae yn ei Fedydd gwedi (*lifio*) neu rwymo eu hunan megis milwr tan ei faner ef,

ac

ac wedi cymmeryd arno ymwrthod ar Diafol ai holl weithredodd, yr awrhon, mae pawb ac ſydd yn arferol o ymgynghori a chonſurwyr, a dewiniaid, gwedi torri cyfammod eu Bedydd ac yn gwneuthur (*trawſwriaeth*) neu fradwriaeth yn erbyn Brenin Nef a daiar; ac er fod dyn wedi gwneuthur ſelly, pan y bytho yn ymroddi yn ewyllyſgar i ganlyn un rhyw fath o ffordd i ddrwg, etto y mae rrwy geiſio cynhorthwy'r cythraul, yn gwneuthur hynny mewn ffordd mwy ofnadwy; ac weithian wedi ceiſio egluro ir cyfryw rai faint yw eu perigl ceiſiaf ddangos etto'r ffordd ſydd o ymwared; a hynny yw, ar fod iddynt wneuthur fal y gwnaeth *Manaſſes*, pa un er ei fod wedi cilio oddiwrth Dduw a ddychwelodd atto drachefn, ac er ei fod yn arfer dewiniaeth, a ſwyngyfaredd a llanwyd *Gaerſalem* a gwaed gwirion, etto a rhoddodd heibio'r fath ffyrdd, ac edifarhâodd ac a ddychwelodd at Dduw, drachefn ac a gafodd ei dderbyn er cymmaint oedd ei ddrwg or blaen.

Gwrthres. Eithr fe ddichon rhai ofyn a ydyw yn boſibl fod gobaith o drugaredd ir dewiniaid, ſwynwyr, a chonſurwyr, yn gymmaint a bod rhai o honynt gwedi ymgyfammodi ar Diafol, os dychwelant at Dduw drachefn?

Atteb. Pa ham nad oes iddynt gyſtal gobaith yr awron ac oedd gynt yn amſer yr Apoſtolion, o herwydd yr ydym yn gwe-

led pan oedd y fath rai yn ymroddi i ymwrthod ar cythraul, ac i ddychwelyd at Dduw ac i gredu yn Nghrift, eu bod yn cael ei derbyn ganthynt megis *Simon* y ſwynwr ac eraill ac y mae hanes nodedig ynghylch conſuriwr a edifarhaodd yn amſer *Luther* pa un megis *Fauxſtus*, oedd gwedi ymrwymo mewn Scrifen oi waed ar fod ir Diafol ei gael ef am ben, rhyw faint o flynyddau; etto er hyn pan edifarhaodd a dychwelyd at Dduw, nid allodd y Diafol niweid iddo eithr rhoddodd yr Scrifen yn ei hol, gwelwch Hannes y ffydd, eithr fe ellir canfod mae yn anfynych iawn, y mae hudoliaid, a chonſurwyr, yn edifarhau ac yn ymadel au ffyrdd Cythreulig, eithr parhau ynthynt hyd y diwedd, ac fel nad oes dim gobaith ir pechadur ac a fytho yn ymroddi i barhau yn ei ffordd ddrwg tra fytho yn parhau felly.

Felly ni ddylau fod dim anobaith ir pechadur dychweledig ac a gretto, a rhai ſy'n flin ganthynt iddynt ddigio Duw O herwydd hyn, fe wnelau gonſurwyr yn gallach ddychwelyd a rhoddi eu Llyfrau drwg ir tân fal eraill gynt, na bod eu hunain trwy arfer y cyfryw Lyfrau mewn perigl o dân Uffern: Ac yn ddiweddaf ceiſiaf roddi i chwi hannes ynghylch llawer o'r arferion drwg ac Uffernawl ac ſydd yn cael ei harferyd mewn llawer o leoedd yn Nghymru.

Weithian, wedi ceiſio dangos fal y mae dyn

dyn trwy fod yn myned i ymgynghori a brudwyr, a Dewiniaid, yn ymwrthod a Duw, ac yn dychwelyd at y Diafol, ac wedi ceiſio 'Annog y cyfryw rai i ddychwelyd at Dduw drachefn, a rhoddi heibio'r fath arferion drwg, dangoſaf yn ddiweddaf pa rai yw'r arferion gwaharddedig yma ſydd yn cael i harfer yn nghymru.

1. Pan y bytho dynion yn myned i ymgynghori a dewiniaid neu Gonſyrwyr ynghylch unrhyw Achoſion eithr heb-law hyn y mae llawer o draddodiadau drwg ac *ſydd* wedi ir Diafol *draddodi* i ddynion iw harferyd er eu diniſtr ac nid ydynt yn gwneuthur dim llai na chwareu rhan y conſurwyr eu hunain megis pan fytho dynion yn gwneuthur rhyw fath o Scrifen, ymha un y bydd yn arferol o fod rhyw fath o eiriau, ac a fytho gwedi ei *traddodi* gan Satan, hon a *fydder* yn arferol oi *rhoddi* i ddynion, eu Anifeiliaid, neu gŵn rhac mynd yn gyndeiriog, neu yntau yw goſſod ar bappur i rai yw *rhoddi* o amgylch i *gyddfau* rhac clefydau, O *herwydd* fel y dywaid St. *Auſtyn Remedia et ligaturæ quæ Medicorum diſiplina Condemnat* ac ymmhellach *medd* ef, *ex traditioni Malorum Angelorum ſunt* y fath arferion *medd* ef a gawſant ei *dechreuad oddiwrth draddodiadau'r* Angelion *drwg* o *herwydd* hynny *gocheled* pawb rhag *arferyd* y fath *draddodiadau* gythreulig.

2. Math o arfer *ddrwg* arall *ſydd* yn cael

ei harferyd ac fal yr wyfyn tybied yn llawer gwaeth na'r llall, ſef, fod rhai yn cymmeryd y Bible Sanctaidd pan bythont gwedi colli rhyw beth ou golyd a thu ac at ddewinio pwy a ledratodd eu heiddio oddiwrthynt, hwy a oſodant allwedd (neu Agoriad) yntho ac a gauant y Llyfr ar yr allwedd ac ai rhoddant iw ddala rhwng dau ddyn ac wedyn adroddant ryw adnod ſydd yn y Bible; ar ol hynny hwy a enwant y neb a fythont yn ei dybied ai colledodd ac a erfynant ar fod ir Llyfr droi os bu ir cyfryw un ac enwaſant ledratta'r cyfryw beth oddiarnynt: ac oni chanfyddant ef yn troi hwy a enwant ryw un arall, eithr pan fytho iddynt gwrdda neu daro wrth enw yr lleidr fe a ddyweder y *bydd* y Llyfr yn arferol o droi, ac ni ellir perſwadio rhai dynion i gredu fod y fath arferion yn *ddrygionus*. Eithr o *ddyn* mae'n *hawdd* i ti wybod fod dewiniaeth yn *ddrygionus*, ac os ydyw yn *ddrwg* i ti arferyd dewiniaeth trwy un rhyw *ffordd*, nac wrth un rhyw Lyfrau; pa 'r faint mwy drwg ydyw i ti gymmeryd y Scrythur *Sanctaidd* yn offeryn i wneuthur y peth y mae Duw yn y cyfryw Lyfr yn ei warafyn, cais feddwl mae peth gwrthwynebus iawn ydyw i ti gymmeryd y Bibl Sanctaidd iw oſſod yn offeryn i ddewinio wrtho, yr hun ydyw'r amharch mwya ac allo neb ei *rhoddi* ar y Scrythur; O herwydd hynny edifarhaed y cyfryw rai, a

goſodant

gosodant at eu calonnau, pa'r fodd ryw *ddydd* yr ymddangosant ger bron Duw o herwydd gwneuthur *y* fath amharch ar i air ef, on'i edifarhânt ac ymadel ar fath arferion drwg, a diamau fod y fath arferion yn rhyngu bodd y Diafol yn fawr, heblaw hyn pwy wyt ti yn ei dybied *sydd* yn troi'r Llyfr pan enwer y lleidr? fel yr *adroddodd* un wrthyf *iddo* fyned i wneuthur y fath arfer ddrwg wedi ei Leidr fyned ai *ddillad* ef ac pan enwodd, ef y neb *oedd* ef yn ei dybied a'u dygasau hwynt, ir Llyfr (ac yntau yn ei ddala ef gerfydd yr *allwedd*) droi yn ei law ef, ac iddo gael y fath ofn, hyd o nid oedd ymron ffaelu sefyll ar ei draed.

3. Y mae rhai eraill yn anfcryd cymmeryd Gwagr a Gwellau i Ddewinio wrthynt. dywedodd ûn wrthyf *iddi* weled Dewinio yn y fath ffordd ynghylch pâr o Fenig a gollasyd yr oedd y Gwogor ar gwellau yntho yn cael ei ddala ei fynu, trwy fod un bob ochor *iddo* yn ei gynnal ar ei dwylo, ac yr oeddent yn *adrodd* rhai geiriau or Scrythur Sanctaidd, ac yn dywedyd ei bod yn enw St. *Paul*, ac yn enw St. *Pet*, yn erfyn ar fod ir Gogr ar gwellau droi, os y cyfryw un ac yr oeddent hwy gwedi ei enwi aethau ar menig, ac yr oedd un yn dywedyd wrthyf *oedd* yn gweled cyflawni'r fath arfer *ddrwg*, *iddi* weled y Gogor yn troi eithr ar ol iddynt gael hanes pwy aethau ar menig aethant drachefn i gym-

Gogor ar Gwella

meryd y Gogor ar gwellau yn llaw i ddewinio ymmha'r *le* yn nhy'r cyfryw un ac aethau a nhwy yr oeddent yn 'ghadw: eithr *nid oedd* y Gogor lyn yſgog nes iddynt enwi'r coffor ar ba amſer dechreuodd y Gogor droi ar ol hynny mynaſant warrant ac aethant i chwilio ac a gawſant y menig yn 'ghoffor y Fenyw wrth enwi pa un y troeſſau yr Gogor ar gwellau. Gwell a fuaſeu iddynt golli'r menig, na pheryglu golli eu heneidiau, drwy ymgynghori ar Diafol ou herwydd

4. Y mae rhai eraill wrth arferyd Gwerſau a Gweddiau at *Seinctiau*, pa rai y maent yn arfereu dywedyd a'i *hadrodd* Naw gwaith gyda rhyw fath o eiriau *traddodiadol*, er attal gwaed dyn neu anifail a fytho yn gwaedu, heb arferyd dim *moddion* naturiol, tu ac at hynny, ond eu Swynion ar gwerſau *traddodiadol*. Y mae rhai eraill yn codi palfeiſiau Cyphylau neu annifeiliaid eraill a fytho gwedi llaeſu trwy'r un arferion: eithr y maent yn mynu rhyw faint o rawn neu ſwng yr annifail, a rai o honynt a ſydd yn arferol o daflu yr cyfryw fwng neu rawn ir tân, eithr fe *ddychon* rhai *ddywedyd* pa'r *fodd* y dychon y fath beth fod yn cael ei ddwyn o ddautu, ſef y dychon dyn wrth *ddywedyd* rhyw fath o eiriau *traddodiadol* godi palfais'r annifail, er bod llawer o filltyrodd oddiwrtho yn y cyfamſer, ac am y cyfryw rai yr wyf yn atteb nad wyf yn gwybod pa werſau

ſau a *thaddodiadau* y mae pawb or cyfryw rai yn eu dywedyd ac yn eu harfer; eithr mae yn hawdd gwybod pwy *ſydd* yn goſſod i ddynion *weddio* ar Seinctiau, ac Angelion, a chymmeryd enw Duw yn ofer, ac arferyd Gweddiau anghyfreithlawn: Eithr ſe ddychon pawb fod yn *ddigon ſicr* fod y rhai hynny a fytho yn cyflawni pethau trwy arferyd *traddodiadau* o eiddo'r Diafol, fod yr hyn y maent yn ei gyflawni yn cael ei ddwyn o *ddautu* neu oddiamgylch trwy gynorthwy'r Diafol, O herwydd y mae'n cael y cyfryw rai yn eu *ffordd* ei hun.

5. Y mae math o arfer *ddrwg* arall yn cael ei harfer gan rai merched iefaingc, pa rai er cymmaint *ſydd* arnynt o ofn y Diafol, etto er hynny a anturiant fyned i chwareu rhan y conſurwyr eu hunain, yr hyn y mae rhai o honynt yn eu gyflawni fel hyn yn gyntaf hwy a gadwant ympryd noſwyl *J*——*n* ar ol hyn hwy a wiliant hyd ynghylch hanner nos, ac ar ol hyn hwynt hwy a ânt i ryw ſtafell ac a adawant y drws yn agored ac a ennynant ganhwyllau yn yr ſtafell ac a oſodant liain ar y bwrdd, a dodand gwppanaid neu laſiaid o ddiod arno, ac wedyn, y Ferch a erfyn ar fod ir dyn hwnnw ac a fytho i fod yn briod iddi hi, ddyfod i yfed atti, yr hyn yn fynych a fydd yn cael ei gyflawni gan Satan trwy ddyfod yn breſenol yn yr un dull ar dyn iefangc, ac yn cymmeryd *y ddiod*

ac

ac yn yfed arti; Yr hyn yn fynych a fydd yn peru i rai ofni a dychrynu, os cadwant heb amhwyllo y mae (*Hiſtori*) neu Hanes iw gweled mewn Llyfr a elwir *Pandæmonium or the Devil's Cloiſter* wedi i oſſod allan gan wr bonheddig a elwyd *Richard Bovet* gwelwch dalen. 213. Lle mae ef yn dangos ynghylch dwy Waſanaeth-ferch oedd yn aros yn nhy un Ms. *Ayſh* (y 'ngwlad yr haf, ac aeth i gyflawni'r fath arferion drwg, ac yn breſenol hwy a glywent ddryſau'r Porth *yn* agoryd gyda thrwſt ofnadwy iawn, a Spainiel pa un a fyddan yn arferol a fod yn daer wrth bob rhai dierth: etto'r pryd hynny rhedodd *yn ddychrynllyd*, ir tŷ, ac yr oedd yn udo, nes ir Merched dybied y dihunau ef yr holl *dylwyth*. Eithr *yn y* cyfamſer, dyna ddyn iefangc yn dyfod i mewn ac *yn cymmerydy* glaſied diod ac yn goſtwng neu'n peccan i ben at un or merched, ac *yn myned* allan, ac ar ol hwnnw un arall drachefn *yn dyfod* i mewn ac yn yfed y cwpanaid arall, ac yn goſtwng ei ben tuacat y ferch arall ac *yn myned* allan; a chyn bod *yn* heppell bu i un or merched briodi *dyn* oedd yr unwedd ar un a ddaethau i yfed arti.

Rhai eraill fydd trwy ffordd arall yn cyflawni'r fath arferion drwg, ſef, trwy fod ir Ferch iefangc olchi ei chrŷs, ac wedi hynny i droi ef ar y gwrthwyneb, ai oſod ef wrth y tân hyd oni bytho'r naill wyneb iddo

iddo gwedi ſychu, ac wedi hynny hi a wneiff erfyniad ar fod ir dyn hwnnw a fytho ar ei meder hi ddyfod i droi yr crŷs ar yr wyneb arall. Rhai eraill a fyddant yn myned noſ-wyl Joan i hau had Hemp neu Gowarch ac ar ol hynny hwy a gonfyriant y dyn iefangc i ymddangos ac i rhaccanu (neu gribinio) yr tir ar yr hâd Hemp ac fe a gyfaddefodd merch iefangc wrthyf, iddi gael y fath ofn a dychryn wrth gyflawni'r arfer drwg hon, fal y bu iddi gadw ei gwelu fagad o ddyddiau gan flinder; o achos iddi ganfod megis dyn yn dyfod i raccanu'r tir. Y maent yn arfer o gyflawni'r arfer ddrwg hon ynghylch 'r amſer y bytho'r haul yn machludo, eithr pa'r fodd bynnag y bythont yn cyflawni'r fath arferion drwg gan eu bod yn ddrwg ac yn bechadurus, ac mae'n dybygol wedi ir Diafol ei hun eu trefnu ai traddodi i ddynion gan ei weiſion ef ei hun, ſef, y Dewiniaid, ar Conſurwyr, *mynych y bydd* ef yn ymddangos ir cyfryw rai *yn yr* un dull ar dyn a fythont *yn erfyn* cael ei weled; Eithr fe ddychon rhai ddywedyd pa'r fodd y dychon y fath arferion fod yn gymmaint drwg, neu ymmha'r le y mae'r fath arferion yn cael i gwarafyn y maent mewn llawer o leodd yn cael ei gwarafyn eithr yn un enwedig mewn un lle *Deut.* 29. 29. *Y dirgeledigaethau ſydd eiddo Arglwydd ein Duw, ar pethau amlwg a rhoddwyd i ni ac i'n plant hyd byth*, yr awrhon ni

Coel Haa hâs Llin

a

a welwn fod yr Scrythur hon *yn* gwarafyn i ddyn geisio gwybod pa'r bethau dirgel ac sydd wedi i appwyntio neu trefnu ar i fedr ef. Ond y mae'r un awch a dymmuniad mewn dyn ar ol ffrwythau gwaharddedig ac oedd yn ein hen tam *Efa*: O herwydd hyn mae'r Yspryd drwg yn dyfod i ymddangos ir rhan fwyaf ac sydd *yn canlyn* y cyfryw draddodiadau drwg, a phechadurus hefyd y mae pob lle ac sydd yn yr Scrythur, *yn gwarafyn* Dewiniaeth, *yn gwarafyn* yr arferion drwg *hyn*, O herwydd mae math o ddewiniaeth *neu* Gonsyriaeth ydyw.

6. Arfer ddrwg arall ydyw ymgynghori a Dewiniaid a Swynwyr, tuacat geisio help eich clefydau *trwy* gynhorthwyr Swynwyr a hudoliaid gwelwch *yn* ail Llyfr y *Brenhinoedd*. 1. 3. Lle mae Duw *yn* erchu i'r Prophwyd *ofyn* ir cenhadau oedd y *Brenin Ahazia* wedi ei *hanfon* at *Baalzebub* i ymofyn a ç ef pa *un* a *wnae* ai byw oi glefyd, *neu yntau* marw, medd ef *ai am nad oedd Duw yn Israel yr ydych yn myned i ymofyn a Baalzebub*. Felly y gellir gofyn i lawer *yn ein* myfg *ninau*, ai am nad ydych yn credu fod Duw yr ydych yn myned yn eich clefydau, ac yn ych cyfyngderau, yn myned *neu'n anfon* at y Diafol i geisio help, O herwydd atto ef yr ydych *yn myned yn* eich cyfer er eich bod *yn cymmeryd y* dewin rhyngoch ac ef: O ddyn pa reswm a allu ei rhoddi o'th fod yn gwrthod disgwyl wrth y Duw Holl-alluog? ac

yn

yn myned i ymofyn ymwared at greadur ac ſydd y 'ngh-adw mewn cadwynau tywyllwch i farnedigaeth, ac ſydd yn ymhyfrydu yn ei ddiniſtyr tragwyddol, ac yn ſynych ni bydd ond y felldith ar aflwydd gwyllt yn canlyn y cyfryw rai ac ſydd yn arfer o ſyned am feddiginiaeth at y fath.

Ac er bod Dewiniaid, a Swynwyr, yn arferyd llyſiau, (ac ennaint) tuacat iachau cleſydau, etto nid yw hynny, ond i geiſio lliwio eu harferion drwg hwynt, trwy ba rai y maent yn gweithredu, eithr medd rhai dynion, a ydyw'n boſibl fod y rhai ſydd yn myned tan enw dynion hyſpus, a Swynwyr, fod y fath rhai yn iachau cleſydau trwy gynnorthwy'r Diafol gan eu bod hwy'n ſon, neu'n crybwyll, cymmaint am enw Duw, mewn rhyw fath o draddodiadol weddiau ſydd ganddynt.

I ba rai yr wyf yn atteb, fod yn boſibl, ac mae yn Sicr, mae'r amharch mwya ac allo neb i ofod, ar enwau a theitlau yr Holl-alluog Dduw, ydyw arferyd ei Enwau, ai Deitlau ef, mewn erfyniadau traddodiadol, ac y fyddo yn cael ei harferyd gan Swynwyr, a (*Witchod.*) wrth gyflawni eu harferion drwg, pe byddeu eu chwi geiſio gan Dduw eich helpu i dorri'r Sabboth neu ei feddwi neu Ledratta a fyddau ei hynny wneuthur eich bai yn llai oni byddau yn ymddangos yn llawer mwy, O herwydd hynny hawdd y goddef y Diafol, yw weiſion, ſef y Swynwyr, ar dewiniaid, ſôn, a chrybwyll, am enw *Duw* yn ofer. *Pſal.* 139. 20. Ac hefyd trwy hynny y mae ef a hwynthau, yn twyllo'r anwybodus, a gwneuthur [illegible] dybied nad oes drygioni ganddynt, eithr nid ydyw [illegible]yw rai, trwy ddywedyd ei bod, yn myned yn enw *Duw*, a thrwy help *Duw*, pan ar yr un amſer y maent yn cyflawni gwaith y cythraul nid ydyw hynny meddaf, ond gwneuthur eu bai yn llawer mwy ofnadwy, ac uffernawl: medd rhai pobl mae'r dewiniaid yn dywedyd wrthym ni mae trwy help *Duw* y maent hwy'n helpu cleſydau, ac yn rhoddi gwybodaeth a hyſpyſrwydd ynghylch pethau dirgel y mae'n rhaid dywedyd nad ellir aminau nad ydynt mor ddigwilidd ac y dywedant felly eithr a ydwyd ti yn tybied na fedr gweiſion Tâd y celwydd ddywedyd dim celwydd ei hunain felly'r o-

Iachau cleiſion trwy Swyno

See Example p. 19.

edd

edd *Simon y Swynwr* wedi twyllo pobl *Samaria*, hyd o nid oeddent or lleiaf hyd y mwyaf, yn tybied mae trwy allu Duw'r oedd ef yn cyflawni ei Swynion, er nad oedd yntau, ond trwy gynnorthwy'r cythraul. *Actau*, 8. 9, 10, 11. Eithr ymmha'r beth y dychon y cyfryw rai wneuthur cywirach gwasanaeth i'r Diafol na thrwy gymmeryd Enw Duw yn ofer, ac fe ddywedir y bydd hudoliaid yn cyfaddeu pan y byddont ar nosweithiau yn myned iw cyfarfodydd cythreulig. lle bydd y Diafol a hwythau yn cyfarfod, eu bod yn ymrwymo na byddo iddynt fôn, na chrybwyll, am enw Duw mewn modd parchedig; eithr mewn ffordd o amharch a chabledd, o ddynion anwybodus y rhai ydych yn dueddol i dybied fod Swynwyr a dewiniaid yn ddigon pell oddiwrth helpu eich clefydau trwy gynnorthwy'r Diafol, os bydd i chwi eu clywaid hwy yn arferyd gweddiau anghyfreithlon, ac yn cymmeryd enw Duw yn ofer, eithr yr ydych yn mawr gamfynied. Un or pethau cyntaf ac y mae'r Diafol yn ei offod neu drefnyd: iw wneuthur gan y rhai hynny ac a fyddo yn chwenych myned yn gonfurwyr, ydyw arferyd math o weddi anghyfreithlawn, fel y mae rhai ou Llyfrau cythreulig hwy'n dangos fef yn dangos, pa'r fodd y mae yn gofod iddynt wneuthur erfyniad at Dduw, ar fod iddo gan eu bod hwy yn anheilwng, o gymdethas yr Angylion da, ar fod iddo adel a chenhadu i'r Angylion drwg ddyfod i fod yn gynnorthwy iddynt, yr hyn fydd beth echrydus, fod dyn yn ceifio gan Dduw ei humain, nid yn unig gael y cytheuliaid yw - - - naethu ef, eithr ceifio ganddo ei helpu yntau i wa*rinau'r* cythraul O herwydd y mae hynny yn gynhwyledig yn y cyfryw erfyniad Uffernawl.

Hanes Agnes Simpson

Y mae (Stori) neu hanes yn mynegu ynghylch un ai henw *Agnes Sympfon* (*Witch*) neu hudoles oedd yn *Scotland* oedd yn arfer o helpu clefydau trwy Swyngyfaredd a dywedyd pethau dirgel ac amlygu pethau cuddiedig & mae'r hanes yn dangos y byddau i'r cyfryw un fynych arferyd hir weddiau a Rhymau ac oedd yn cynwys ynddynt rai or pethau neu'r (pointiau) penaf mewn Crifianogaeth fel yr oedd hi yn wynebu bod yn fenyw Sanctaidd etto er hynny ffindiwyd allan ei bod yn Witch neu hudoles

doles a'i bod mewn cyſammod at Diafol a bu iddi gyfaddef llawer or drygau a wnaethau cyn ei rhoddi i ſarwolaeth gwelwch Lyfr Mr. *Glanvail dal* 303. Y rhan ddiweddaf a'r Argraphiad diweddaf.

Yr ydwyf yngwybod ynghylch Benuw oedd yn cael y gair o ſod yn arferyd dewiniaeth, a Swyngyfaredd, eithr er mwyn twyllo'r anwybodus, hi a fyddau yn erchi i ddynion weddio, ac a fyddau yn arferyd rhyw fath o weddi ei hunan, ac erfyniadau ar *Seinctiau*, fal na fynau rhai gredu ſod drygioni gan y cyfryw un a fyddau yn ei hanog i weddio, eithr o ddyn cais feddwl ſaint or niwaid o fyned at y cyfryw i geiſio Phiſigwriaeth eithr bod mor ddigwilidd a cheiſio gan Dduw lwyddo meddigiriaeth y Diafol, hyn ſydd beth ofnadwy iawn.

Mi a adwaenwn ddyn a fyddau yn arferol o dramwy at un a fyddau yn arfer Swynio tros rai cleiſion, ac yr oedd yn dywedyd y byddau hi yn erchu cymmeryd halen ac yn erchu i offod ef tan anadle y dyn claf; ac ar ol hynny ddyfod ar halen atti hi, wedi'n, hi ai cymmerau, ac ai goſſodau mewn cwppan, ac wedy'n y byddau hi yn mynd ar ei gliniau, ac yn arferyd rhyw fath o weddi, ac y byddau hi yn cyffroi yr halen, a Chyllell yr holl amſer y byddau hi yn adrodd ei gwerſau, ai Gweddiau, ac ar ol hynny y byddau hi yn rhoddi yr halen i fyned adref i gael arferyd rhyw fath o oſergoelion ac ei ymmhellach.

Ac y mae rhai yn manegu ſod rhai Swyngyfareddwyr, pan ddêl neb attynt tros rai Cleiſion, y byddant yn mynnu neu'n ceiſio rhyw ddilledyn ir dyn claf, megis y lliain a wiſgau am ei wddwg, ac ſe a ddyweder y byddant yn taflu'r cyfryw ddilledyn iw loſgi, ir tân, tybygol mae nath o Aberth ir Diafol ydyw.

7. Math arall o arfer ddrwg ydyw, ſod Dynion yn ymgynghori ar Corniſiaid, pa rai fydd yn arferol o dramwy trwy rai lleodd y'nghymru, i ymofyn cardodau, ac ei dwyllo dynion am ei harian, trwy ſod yn dywedyd eio *Teſni* hwynt, ac ſe ddychyn llawer rhai dybied nad ydyw ond peth bychan iddynt fyned i ymgynghori ar cyfryw rai, eithr y maent yn mawr gamſynied, O herwydd ſod llawer o honynt yn ddewiniaid, ac mor gyfrwyſed

Fortune tellers

Conſurwyr,

Gonſurwyr, hyd oni ſedrant trwy gynnerthwy'r Diaſol (*Jwglo*) neu Gwnſyrio, yr holl arian a fyddo o ddautu y dynion hynny a roddo ryw faint iddynt am ddywedyd, eu *Teſni* ac un peth a haeddau ddal Sulw arno, ſef y dychon y cyfryw rai gonſyrio arian, allan o boccetau, y rhai a fyddo yn ymgynghori a hwynt ynghylch eu *Teſni*, neu ymmoſyn dewiniaeth ganddynt; ac nad allant (*Jwglo*) arian eraill a fyddo yn newid arian neu yn deſio a hwynt mewn ffordd gyfreithlon, o ddyn! Gochel ymgynghori ar rhai hynny a fynnau dy Speilio o'th enaid, a'th olyd, ar unwaith, a chais feddwl ſel yr oedd yn erbyn cwyllus Duw, i *Saul* ymgynghori ar ddewines o Endor, felly nid all dy fai di neu finau fod ddim llai o ymgynghori ar Corſhied eithr medd rhai dynion, pan ddelont at ein dryſau, hwy a fyddant yn arferol o ddywedyd llawer wrthym pan na byddom ni yn teiſio ganddynt, eithr gwel'n. *Jer.* 27. 9. *Lle mae Duw yn gwarafin rhoddi cluſt ir cyfryw, na gwrando ar Ddewinwid, breuddwydwyr, a Swynion*, &c. Edrych ar Ddewin megis tennad ſydd tan Satan i geiſio dy rwydo i ddiſtryw.

Tywyſtion teg

Tylwyth teg 8. Math o arfer ddrwg arall ydyw, myned i ymoſyn hyſpyſrwydd, neu i ymgynghori ar cyfryw ddynion hynny ac ſydd yn canlyn yr Yſprydion y maent yn alw'n dylwyth têg, neu ſendith i mamau; Eithr medd rhai pa'r beth a ddylem dybied ynghylch y cyfryw rai yr wyf yn atteb y dylem, nid yn unig dybied, eithr gwybod yn ſicer fod yn waharddedig ymgynghori ar cyfryw Yſprydion, nâ'c a neb ac ſydd yn eu canlyn hwynt pa'r beth a dybygwch ſydd yn cael ei feddwl yn *Deut.* 18. 11. Lle mae Duw 'n gwarafin ymgynghori a brudwyr, neu'r rhai a ymofyno ar meirw, ac fe a ddywedir fod y cyfryw yſprydion yn ymddangos weithiau yn yr un dull a rhai dynion a fyddo gwedi marw, heblaw hyn chwi a welwch fod *Saul* yn tybied, y gallau'r ddewines o Endor, wneuthur ir Prophwyd *Samuel* ymddangos ar ol iddo farw, er fod yn ſicer, nad oedd yn allu'r cyfryw un wneuthur i Yſpryd y Prophwyd Sanctaidd oedd yn y Nefoedd, ddyfod i ymddangos ac i ymddiddan a *Saul*, trwy i Swynion hi, etto hi a allau godi yſpryd

arall,

arall, pa un a allau ymddangos yr un fath ac ef, eithr y mae Mr. *Glanvail* yn tybied, ei Yſpryd y Prophwyd gael ei anfon i ymddiddan a *Saul* eithr nid trwy Swynion y ddewines, eithr y mae ef yn bwriadu iddo ymddangos cyn iddi ſyned neu tra'r oedd hi yn myned ynghylch ei Swynion, ac iddi frawychu, gwelwch Lyfr Mr. *Glanvail Dalen* 54. 55, 70, o'r 2 *Rhan.* Rhai er aill ſydd yn tybied mae'r Diafol a ymddangoſſodd trwy Swynion y ddewines, eithr fe weddau, ac mae'n dybygol fod dewiniaid'r oeſoedd hyn, yn uwch yſcol-heigion yn yſgol y Diafol, nac oedd y ddewines o Endor, O herwydd ni wyddau hon ar y cynta pwy ydoedd *Saul*, eithr y mae'r dewiniaid ſydd yr awron ar rhai ſydd yn canlyn yr Yſprydion y maent yn alw yn *Dylwyth teg* (*neu fendith eu mamau*) yn cael gwybod gan y cyfryw yſprydion ynghylch pa achoſion y bydd rhai yn dyfod attynt, cyn y delont, yn agos iddynt, ac a fedrant wybod hyd yn oed, y geiriau a fythont yn ei llefaru cyn y delont oddicartref, neu ar y ffordd wrth ddyfod, er bod llawer o filltyroedd rhyngthynt, ac a fedrant wybod enwau'r Sawl a fytho yn dyfod attynt, a'u galw wrth eu henwau er mor ddieithrawl y tybygyd eu bod iddynt, ac a fyddant yn rhagddywedyd marwolaethau dynion, ac fe fydd rhai o honynt yn rhoddi gwybodaeth ynghylch pethau a fyddo gwedi eu

colli, ac yn dywedyd *teſni* dynion. &c. Mynegodd un o'm cymmydogion wrthyf, fod un o'i berthynaſau heb fod yn iach, ac ar y Sabboth anfonwyd i erchu goſod gweddi tros y dyn claf yn yr Eglwys, ac ar yr un diwrnod anfonwyd *cennad* troſto ef at un oedd yn cael y gair o fod yn cael gwybodaeth gan y cyfryw Yſprydion, ac er bod y dyn claf lawer o filltyroedd oddiwrthi, etto yr oedd hi yn gwybod fod gweddi goſod Gweddi troſto ef at Dduw, ac megis yn anfodlon o herwydd hynny, eiſiau dyfod atti hi ar yſprydion *oedd ganthi* i geiſio help, ac nid mynd hefyd at Dduw ei geiſio help.

Heblaw'r dewiniaid pa rai ſydd yn canlyn y cyfryw Yſprydion o'u gwir fodd, fe a ddywedir y *bydd* y cyfryw Yſprydion yn ceiſio twyllo dynion megis o'i *hanfodd* yw canlyn hwynt, ac y *byddant* weithiau *yn ymddangos* megis dynion a fyddau yn dawnſio. ac a *fyddant* a (*Muſicg*) neu lais cerddoriaeth *ganthynt*, i geiſio llithio, neu dwyllo rhai *dynion* anwybodus gyda hwynt, eithr y mae'r gwr da *hwnnw* a *offodobb* allan *Hannes y ffydd*, yn dal ſulw nad ydyw'r cyfryw Yſprydion *yn ymddangos* yr awrhon y 'nghymru mor fynych ac yr *oeddent* yn yr amſeroedd gynt, *pan oedd* cymmaint o anwybodaeth y 'nghymru, (medd ef,) er pan adgyweiriwyd y ffydd, nid yw'r *Tylwyth teg*, (ſef y cythreuliaid cymdeithgar) cyn hyfed

ac

ac yr oeddent yn amſer pabyddiaeth, pryd *yr ymddangoſent yn ſinteioedd* gweledig i lithio pobl trwy *yſpleddach* a hwynt, arwydd ei myned yn *ddydd* Efangylaidd, pan *ymguddiodd* pryfaid y tywyllwch. *Hanes y ſſydd Dalen.* 238. Gwelwch fel y mae'r gwr hwn, a rhai dyſgedig eraill yn dal mae'r cythreuliaid ydyw'r cyfryw Yſprydion, eithr fe *ddychon* rhyw un *ofyn* pa'r beth a *ddylau'r cyfryw ddynion* wneuthur a fyddau yn cael eu blino gan y fath Yſprydion, neu pan fytho'r *cyfryw yn* ceiſio twyllo a *chymmeryd* rhai gyda hwynt o'i hanfodd, fel y dywedir *y byddant* weithiau *yn ymcanyd*; eu ba rai *yr wyf yn* atteb, nad oes dim well iddynt na dilgwyl wrth yr Holl-alluog Dduw, yr hwn *ſydd* a'i allu uwchlaw pob gallu, 'r hwn all achub, a gwared hyd yr eithaf; O herwydd *byddwch* ſicer pe *byddau* i holl gythreuliaid Uffern, eu wneuthur *yn* unig waith *iddynt* geiſio *dwyn y* lleiaf o bobl Dduw allan o'i law ef, ni *byddent yn* abl, ac ni *byddau* eu holl *ddiwydrwydd* ond ofer, ac mae'n ſicer nad allent wneuthur niweid gymmaint ac ir mo'ch, neu'r gwaelaf o greaduriaid heb ei gennad ef; *Marc.* 5. 12, 13.

Y mai gwr a elwir Mr. *Beavmond*, wedi goſod allan Lyfr Seiſonaeg a elwir. *Hiſtorical, Phyſiological*, and *Theological Treatiſe of Spirits*, gellwch weled *yn y* ddalen, 87. ar 88. Lle mae'n dangos fod gwlad neu (*Iſle*) ac

A.D. 1705 Lee Bohus Catr.

ac a elwir Skye, a chyn dyfod yr Efengyl i'r wlad honno, fod Teuluoedd o dad i dad yn afer o gael gwybodaeth gan y cyfryw Yſprydion, ſef, y rhai y maent yn ei alw yn *dylwyth têg*, eithr yn neheubarth y maent yn ei galw yn Fendith eu mamau, a bod y fawl ſydd yn eu canlyn hwynt yn dioddef llawer o flinder; O herwydd fod Yſprydion *ddydd* a nòs yn ymddangos iddynt a bod y rhai o honynt ac y fytho yn dyfod *eu*gydnabod eu bod yn gwneuthur ar fai, ac yn dyfod tan argyhoeddiad, o'u bod yn pechu trwy ewyllyſgar ymgyfrinachu ar fath Yſprydion, a'u canlyn hwynt ac yn chwennych cael eu gwaredu oddiwrthynt, yn myned at Weinidogion yr Efengyl, ac yn ceiſio ganthynt Weddio troſtynt, a cheiſio gan Dduw eu gwaredu hwynt rhag y cyfryw rai, ac yn arferol hwy a fyddant yn cael eu gwared ac ni bydd y cyfryw yſprydion yn gallu gwedyn eu cymmeryd hwy gyda hwynt oi hanfodd, na gwneuthur anniwaid iddynt, ar ol iddynt ymroddi eu wasanaethu Meiſtr amgenach, ac ymhellach chwi a ellwch weled yn y ddalen, 102. 103. Lle mae yn crybwyll am Stori neu Hanes a gymmerwyd allan o Llyfr lladin o waith un *Laurentius, Ananiás*, am ddyn a fyddau yn cael math o lewygion, ymmha amſer y byddau'r Diafol yn rhoddi gwybodaeth iddo ynghylch pethau dirgel, a gafodd ei waredu oddiwrth y fath lewygion pan ei

dychwelodd

dychwelodd at Ddaw, ac ymroddi i ymwrthod ar Diafol.

Y mae Mr. *Beumont*, yn ei *Lyfr yn mynegu* fel y bu iddo ef ei hunan gael ei flino gan Yſprydion, ac mae'n dangos fel y daethant iw Stafell ef, ac *iddynt ddywedyd* wrtho y lladdent ef, os dywedau eu bod hwy yno, wrth neb or tylwyth, ac mae *yn dywedyd* ei un o honynt ddyfod atto, a *dywedyd* wrtho, cyn gynted ac y cyſgau y byddau iddynt ddwyn ei *fywyd* ef yr hyn a wnaeth iddo fod heb gyſgn dri diau, a thair nos, or diwedd efe ymrhoddodd na byddau iddo ei hofni hwynt, ac y gyſgodd y noſwaith honno a rhan or *dydd* trannoth ac nid allaſant wneuthur niwaid *iddo* fel *yr oeddent* yn bwgwth, ac er eu bod hwy yn eu ganlyn ef *ddydd*, a nos, ac yn *ymddangos iddo*, mae *yn dywedyd* nad oedd yn cytcam mhofyn dim a nhwy, etto mae yn cyfaddeu iddo unwaith ofyn iddynt pa ryw greaduriaid oeddent hwy, ac *iddynt ddywedyd* mae math o greaduriaid oedd yn cyfanneddu yn yr awyr, a rhai pethau eraill y mae yn ei *ddywedyd* iddo ofyn iddynt, y mae *yn dywedyd y byddent yn* galw arno, ac weithiau *y byddau* ganthynt lais cerddoriaeth, ac weithiau megis llais clychau, ac weithiau megis llais ceiliogau yn canu, gwelwch y 394. ddalen ar 395.

Yr ydwyf yn gwybod ynghylch dyn mi cydnybyddiaeth, ac ſydd yr awrhon

gwedi marw tu fewn i bump, neu chwech, o flynyddau, eithr wedi iddo farw, bu i rai o'i dylwyth roddi 'r gair allan i fod ef, cyn ei farw yn arferol o ganlyn yr Yſprydion yr ydys yn ei galw yn *Dylwyth teg neu Fendith eu mamau*; eithr bu i mi ofyn yw wraig ef, ai gwir oedd y cyfryw chwedlau oedd rhai yn eu dywedyd, ynghylch ei gwr hi, cyfaddefodd fod y cyfryw chwedlau yn ddigon gwir, a'i fod ef er ynghylch wyth o flynyddau cyn ei farw, yn arferol o ganlyn y fath Yſprydion, gyfynais iddi, a oedd hi'n gwybod pa'r fodd or cyntaf, yr aethau efe iw canlyn hwynt; dywedodd hithau, mae cyſgu allan a wnaethau, ar noſwaith wrth ddyfod adref or Dafarn, gofynais pa mor fynych yr oedd efe yn arferol o fyned gyda hwynt, dywedodd hithau, mae unwaith bob mis, ar y nos yr ydys yn ei galw yn nos fercher; gofynais drachefn a oedd hi yn gwybod pa'r fodd oedd y cyfryw Yſprydion yn gwneuthur iddo ddyfod gyda hwynt, dywedodd na wyddau hi ddim yn mhellach na'i bod hi yn ei clyweid hwy'n galw arno wrth ei enw, ac y byddau ef yn codi o'i weli, eithr na wyddau hi pa'r fodd i'r oedd ef yn myned allan, O herwydd nid oedd ond un drws ar y Tŷ, ac y gwyddau hi na byddau ef un amſer ac y bydda yn mynd i ganlyn y cyfryw rai yn agor y drws i fyned allan, ac na wyddau hi pa'r fodd i'r oedd yn boſibl iddo fyned allan,

an, oddieithr eu bod hwy, yn ei gymmeryd ef allan trwy'r Simnau, eithr y *byddau* ef ar ol madel ai gwympeini, yn arferol o *ddyfod* adref ychydig cyn *dydd*, ac na *byddau* yn gallu dyfod i mewn yr un *ffordd* ac y *byddau'r* cyfryw yſprydion yn ei gymmeryd ef allan, eithr y *byddau* hi yn gorfod codi o'i gwelu, i *ddatcloi'r* drws iw ollwng ef i mewn ac yr *ydoedd* hi yn *dywedyd* na byddau hi yn beiddio holi dim llawer arno, o herwydd y *byddau* ef yn *dywedyd* y *byddau* yn flin arno, o fod yn *cyhoeddi* yr hyn a fyddent yn ei amlygu *iddo*, etto yr *oedd* hi yn dywedyd *iddo cyfaddeu*, pan *oedd* ef un noſwaith yn dyfod tu a chartref, a bauch gantho yn ei ddwyn ar ei yſgwydd, ac i'r cyfryw yſprydion eu gymmeryd ef gyda hwynt, ac na *chafodd* ef *ddim* cennad ganthynt i roddi ei fauch oddiar ei *yſgwydd* trwy'r nôs, hyd o *nid oedd* gwedi dolurio'n anafus, ac *iddo ddywedyd iddynt* ei gymmeryd ef gyda hwynt i lan afon ar ba un yr *oedd* pont i fyned troſti etto na chau efe ddim cennad i fyned ir bont eithr gorfod arno fyned trwy'r dŵr, a'i fauch ar ei *yſgwydd*, ac yr *oedd* ei wraig yn *dywedyd y gwyddau* ef y *dydd y byddau farw*

Yr ydwyf yn coſio i'r dyn hwn ddyfod attaf rai blynnyddau cyn ei farw, a gofyn i mi pa'r beth oeddwn ni yn ei dybied a allau fod yr yſprydion hynny a maent yn ei alw'n *Dylwyth têg*, *neu Fendith i mamau* ac i mi ddywedyd wrtho, fod llawer o wir dyſ-

gedig yn dala, neu'n tybied nad yſprydion *da ydynt* eithr na *wyddwn* ni fod achos i briſio, neu ofalu pa'r beth ydynt *o herwydd fod* ein *dyledſwydd* yn *ddigon* eglur i ni, hynny yw na *ddylem* 'mhofyn dim a nhwy, nac a neb a fytho yn eu canlyn Drachefn mi a gefais Hanes *rhyfeddol*, a *adroddwyd* wrthyf gan un *J. M.* Sydd yr awrhon yn aros yn nhref *Aber* —— *ddi*, yn heol y St——et.

Y mae'r gwr hwn yn *dywedyd* fyned ychydig o gwympiad allan rhyngtho a Benyw, pa un *oedd* yn cael ei gadel yn Fenyw, hyſpys fel y dyweder, a dywedyd o hono ef wrth y Fenyw, nid *oedd* arno efe, mo'i hofn hi, a'i chwmpeini neu mewn *ffordd* o gellwair ofyn, pa bryd y cafau *ddyfod* i fyſg ei chwpeini neu chyfeillion hi, eithr y noſon honno fel yr aeth y dyn hwn ei fyned yn nrig y Nos tu a chartref, rhyw ychydig o *ffordd oedd* gantho i fyned or dref i le a elwir y *P*——*n*. Eithr yr awrhon y mae yn aros yn y dre pan aeth ef, nes myned gerllaw y lle y maent yn alw *P*——*dy* y naill ochor ir dre fe a glywau *farweidd-dra* neu *gyſgadrwydd*, neu yn hytrach rhyw fath o lewyg yn codi arno ef, eithr pan *dihunodd* or cyfryw lewyg, a dyfod *iddo* ei hunain, a dechreu edrych o'i amgylch efe a *ganfyddau* ei fod ar ganol yr heol mewn rhyw dref ac a *ganfyddau* oleu mewn tŷ *Tafarn oedd* yno, ac aeth i mewn, lle *canfyddau* fagad yn cwmpnio *galwodd* am Beint o *ddiod*, ac a'i

byfodd,

byfodd, ac a *dalodd* am dano, a daeth i adnabod ymmha dref yr *oedd*, ſef yn *Ngh--tyn*, tref ac *ſydd* un neu *ddau* ar bymtheg o *ſillyroedd oddiwrth Aber——ddi meddyliodd* mae'r ſenyw a wnaethau'r cyfryw y ſtrangc ac ef, ac yn gymmaint a bod Ewyrth *iddo* yn byw yn *'Ngh--tyn*, *bwriadodd* yn hytrach na llettua yn y Dafarn, fyned i dŷ ei Ewyrth, eithr pan aeth ef allan ir heol, dyna'r un fath lewyg yn ſyrthio arno, ac or blaen a phan y *dihunodd* canfyddau ei fod mewn mynwent yn Sir *Henfford*; cafodd ei gymmeryd drachefn gan yr un fath lewyg ac or blaen, a phan *dihunodd* yr *oedd* yn gyfagos i dref *Aber——ddi* o ba un *cafodd* ei gymmeryd ar y cyntaf; gofynais iddo a oedd ef yn gwybod pa'r faint o amſer oedd or pryd y cafodd ei gymmeryd ymaith, nes dychwelyd, dywedodd wrth cynifer awr yr oedd y Gloch yn taro pan yr aeth, ac cynifer awr y tarawoedd hi, pan daethwyd ac ef yn ei ol, fod yn amgylch pump awr a hanner.

Yr awrhon ni fuafaſau, i mi grybwyll ynghylch yr hanes hon on i buaſau fod bagad o bethau yn tyſtiolaethu ei bod yn wirionedd, megis fod y cyfryw ddyn heb gael ei flino gan (ſelancholi) neu'r fath, ond heblaw hyn, iddo anfon i ofyn ir tylwyth oedd yn y ty Tafarn oedd yn *'Ngh--tyn*, pa un a bod un o'i fath ef, yno yn y cyfamſer, ac iddo gael atteb ei fod ef, ac iddo y-fod diod yno.

Eithr

Eithr yr hyn ſydd yn gwneuthur y peth yn anamheuol ydyw *cyfaddefiad* y cyfryw Fenyw ei hunan nid yn unig wrth y dyn ei hunan, eithr wrth eraill, o herwydd mi a ofynais ir dyn, a fuaſau dim *ymddiddan* rhyngtho ef ar cyfryw Fenyw pan cyfarfu ef a hi drachefn? Dywedod yntau fod, ac iddi *ddywedyd* y cafau lonydd rhagllaw, ac felly y cafodd, a dywedodd pan byddau rhai yn crybwyll ynghylch hyn, ac yn dywedyd nad *oedd* y cyfryw Ddyn, ond *bruddwidio* a chamſyned, dywedodd pan y byddau hi yn clywaid, y byddau hi yn amau'r cyfryw rai, ac yn cyfaddef fod y cyfryw hanes yn ddigon ſiccr, ac nad oedd y dyn ddim yn camſyned ac yn ymffroſtio wneuthur o honi y cyfryw yſtrangc ac ef.

Peth arall ſy'n tyſtio, y dychon y cyfryw hanes fod yn wir, o herwydd y mae yn ddigon ſiccr, fod y cyfryw fenyw, a chyfrinach, rhyngthi, ac yſprydion, a bod hyſpyſrwydd ganthi, a gwybodaeth ganthi ynghylch pethau dirgel, ac yn arferyd *Swynio*.

Eithr nid wybod im fi a ydyw'r dynion hynny ac *ſydd yn canlyn* 'r *Yſprydion* y macnt yn alw'n Dylwyth teg mewn cyfammod a hwynt neu peidio ond fe a ddyweder y *bydd y* rai ſy'n *canlyn y cyfryw yſprydion yn* cael eu *cyro gantnynt* nes *bythont yn gleiſio* clywais *ynghylch un o honynt* a fu agos ei gael ei larpio *ganthynt* o *achos* iddi ſradychu *Lleidr*.

Y

Dw rod Tylwyth teg

Y mae Mr. *Perkins* yn crybwyll yng-
aylch ffordd arall ac y mae rhai dynion yn
cadw cyfrinach ar Diafol a chymmundeb
ac ef, ſef, trwy Freuddwydion, o herwydd
y mae'n dywedyd fod tri math o Freudd-
wydion, 1 pan *y* bytho Duw neu'r Angelion
da yn ddatguddio trwy Freuddwydion i
ddynion yr hyn a fytho ef yn ei ewyllyſio
2 math arall o freuddwydion ydynt yn na-
turiol megis pan bytho dyn yn breuddwy-
dio ynghylch yr hyn a fytho ei feddyl-
fryd arno'r dydd o'r blaen neu'n tarddu o-
ddiwrth ei dymherau naturiol, *&c.*

3. Math arall, yr *hyn ſydd ddrygionus ſydd yn* cael ei hyrddu i *feddylfryd dyn* gan y Di-
afol tra fytho yn cyſgu, *Deut.* 13. 25. *Jer.* 23. 25. O herwydd hyn gochelwch fod yn
rhy chwannog i geiſio gwybodaeth trwy *freuddwydion* rhag *trwy hynny ddyfod* o hon-
och i ymgyfrinachu ar Diafol, O *herwydd yn amlaer breuddwydion nid oes Doethineb.* Ei-
thr y breuddwydion *hynny ſy'n dyfod* oddi-
wrth Dduw ydynt a rhyw bethau *hynod ynthynt* ac a fytho'n tyſtio eu dyfod oddi-
wrtho ef *Numb.* 12. 6. *Jop.* 33. 15. *Math.* 1 20.

Gwrthres. Eithr pa bryd, neu pa'r fodd, y gallur gwybod fod dynion yn ddewini-
aid yn frudwyr, neu ddaroganwyr, 2 pa'r fodd y dychon dyn fod yn ſiccr, eu bod yn mynegu pethau trwy ffordd ddrwg, ac
nid trwy ffordd dda, yn gymmaint a bod

yr

yr hyn a fyrhont yn eu ſynegu yn dyfod i ben.

Yr wyf yn atteb, na ddylyd cyfrif dynion yn ddewiniaid er eu fod yn cael eu blino gan yſprydion eithr fe ellir gwybod fod dynion yn ddewiniaid neu frudwyr au bod yn enoc o ;adw cymmundeb pechadurus ar yſprydion drwg, 1. pan y bythont yn gyfammodi a hwynt, 2 yn ceiſio gwybodaeth ganthynt ynghylch un math o achoſion. 3. Neu geiſio eu cynhorthwy hwynt mewn un math o achoſion, 4. Pan y bythont yn arferyd traddodiadau drygionus o eiddo a goſſodiad yr Yſprydion drwg 5. Neu *yn* ei haddoli *hwynt*, neu o'i gwir fodd *yn* eu canlyn *hwynt*, fel *y* mae'r dewiniaid *yn* arferol o wneuthur; *&c. Hefyd* nid yw ddigon i ſiccrhau nad yw rhai yn cael gwybodaeth trwy ffordd ddrwg, er fod yr *hyn* a ddywedant yn dyfod ei ben, gwelwch yr ſcrythur. *Deut.* 13. 1, 2.

Gwrthres. Eithr y mae rhai dynion hyſpys *yn dywedyd* mae'r Angelion da *ſydd yn* rhoddi gwybodaeth *iddynt hwy?*

Atteb. Cais feddwl er *y* dichon Angel *y tywyllwch*, ymrithio fel Angel *y* goleuni etto *bydd* ſicer na ddychon *yr* Angelion da un amſer fod *yn debyg* i Angel *y tywyllwch*; gan *hynny* meddwl mae'r Angel drwg ſy'n annog dynion eu wneuthur drwg, o herwydd er bod yr Holl-alluog Dduw, yn anfon ei Angelion Sanctaidd ei fod yn genhadau troſto

troſto ef; Ac er y byddant yn dyfod yn ewyllyſgar ei gyflawni neu fynegu ei ewyllys ef yn yr achoſion pwyſig a fytho ef yn eu hanfon hwynt ac er eu bod yn canlyn pobl Dduw yn y byd hwn etto er hyn, gobeithio nad ydwyd mor ynfyd a thybied, fod yr Angelion Sanctaidd yn dyfod or Nefoedd i gyflawni dymmuniadau Dewiniaid, a Swynwyr, nac'n hawdd i ti wybod nad ydyw *Duw*, yn anfon ei Angelion Sanctaidd, eu gyfarwyddo Dewiniaid a daroganwyr Cythreulig i ddywedyd *Teſni* dynion, ac i roddi gwybodaeth ynghylch gwael bethau a fytho gwedi colli, neu helpu clefydau trwy ffordd a moddion pechadurus, nid ydyw'r Scrythur Sanctaidd yn dangos i ni fod ond dau fath o Angelion, ac yn gymmaint a bod yn ddigon ſicr nad yr Angelion da fydd yn rhoddi hyſpyſrwydd ir tyſryw ddynion, yntau mae yn ſicr mae'r rhai drwg fydd, ſef y cythreuliaid, nid wyt yn ammau na ddychon Duw anfon eu Angylion i Ddatguddio iw bobl yr hyn a fytho ef yn ei ewyllyſio, eithr mewn perthynas ir gwybodaeth, ar Dat guddiadau, y mae dewiniaid, yn i gael y mae *Pitchmark* neu Nôd haiarn y Diafol yw weled ar y tyſryw,

Gwelais Lyfr Phyſigwriaeth, oedd yn rhoddi rhyw fath o enw ar Angel da, meddau ef, ac yn erchi ir Phyſygwr Weddio ar yr Angel da yma, tros ddynion cleiſion, ac y byddau i'r Angel yma, ddychwelyd ei iechyd ir dyn claf, heb arferyd dim moddion ar y ddaiar tu ac at ei iechyd, ond hynny; eithr gocheled pawb rhag arferyd y tyſryw weddi anghyfreithlawn o herwydd Duw yn unig a ddylem addoli a gweddio arno ac nid ar Angylion. *Matth.* 4. 10.

Yn ddiammau nid ydyw'r Angelion da yn ceiſio Speilio Duw o'i Addoliad, ond yr Angelion drwg ydynt yn fawr eu diwydrwydd i geiſio Speilio Duw oi Addoliad, a dyn oi ddedwyddwch, ac o herwydd hynny na chredweh ddim fod un Angel da yn goddef, neu'n chwennych ei dynion ei haddoli i wynt, nac yn cyflawni amcanion y fawl fydd yn Gweddio arnynt. *Datc.* 19. 10. *Col.* 2. 18. *Ruuf.* 1. 25. *Acts* 10. 25, 26.

Eithr fu ac at ddangos ynghylch dyn a gafodd i dwyllo, trwy dybied ei fod yn ymgyfeilliachu ar Angelion

da,

da, pan nad oedd ond yn ymgyfeillachu ar Angeli
dwg, bu i mi gyfeuthu rhan o Lyfr, a Scrifenodd u
Mr. *Bedford*, Gweinidog oedd yn *Briſtol*, mewn lle
elwir *Temple Pariſh*, o berthyd dyn iefangc o'i gydnaby-
ddiaeth ef, ai enw *Thomas Jerps*, oedd yn byw'n Sir Gaer
loyw, pa un oedd yny nhyfrydu yn fawr mewn *Aſtrolog*
&c. Daeth y dyn hwn at y Gweinidog oedd yn aros y
Briſtol, ac a ddyn munodd gael gwybod gantho, a o-
edd efe yn barnu fod yn gyfreithlon eu ddynioh ymddi-
ddan ac Yſprydion, eithr ar ol ir Gweinidog roddi y rhe-
fymmau goreu ac allau ef i ddangos, nad oedd yn gy-
reithlon, dywedodd yntau ei fod gwedi pwyſo, ac yſty-
ried, yr holl rheſymmau oedd ef gwedi eu rhoddi, a
nad oeddent ond yn goſſod yn erbyn Conſuriaeth, eith
ei fod ef yn credu, fod ffordd ddiniwaid ac allau ddy
ei harferyd i ymddiddan ac Yſprydion, ond bod idd
beidio a gwneuthur un cyttundeb a hwynt, ac iddo e
ei hunan ymddiddan a hwynt, ac iddo fod yn gwrando
arnynt yn canu er mawr hyfrydwch iddo, ac a ddymu-
odd ar y Gweinidog ar fod iddo ef, a Gweinidog arall
oedd mewn lle a elwir St. *James*, ddyfod gydag ef rhyw
noſwaith i le a elwir (*King's Wood ffforreſt*,) neu goed-
wig y Brenin ac y byddau iddynt gael ei gweled a'i clyw-
aid hwy'n Siarad, ac yn canu; eithr y mae'r Gweini-
dog yn dywedyd nad oedd gantho ef, na'r Gweinidog a-
rall mo'r galon i fyned, eithr iddo ddywedyd wrth y dyn
iefangc fod y Diafol yn fawr i gyfrwyſtra a'i fod yn
arferol o ymrithio fel Angel y goleuni, eithr er dim a
ddywedwyn medd y Gweinidog, nid allwn wneuthur i-
ddo gredu mae Diafliaid oeddent, ac mae'n dywedyd i-
ddo ofyn iddo pa foddion a arferodd ef tu ac at Siarad
a hwynt, a pha ymddiddanion a fuaſau rhyngtho ef a
hwynt, dywedodd yntau, fod Llyfr gantho, rheol pa un
a ganlynodd ef, ac wedi iddo fyned i ben croes-heol, a
gwneuthur (*Circle*) neu gylch, a math o Shalc. Oedd
gautho, ar y llawr ac iddo fyned i'r cylch, a wnaeth-
au ac ar ol hynny iddo alw ac erfyn ar fod ir cyfryw
yſprydion ymddangos, a thuacat hynny i fod ef yn arfe-
rydd rhai geiriau or Scrythur, ac o herwydd hynny ei
fod ef yn gadel fod y fath ffordd yn gyfreithlon, yw har-

ferydd,

feryd, eithr ar ol iddo eu galw hwynt, iddynt yn fuan ymddangos, megis merched bychain, ynghylch troedfedd a hanner o hyd, pa rai a chwareuasant o ddautu'r cylch, acer fod arno beth ofn ar y cyntaf, etto ddyfod yn ddifr gantho i ewmpaniaeth hwynt, gwedi dechreu ymarfer a hwynt, dywedodd iddo ofyn iddynt a oedd Duw, a oedd Nef, ac Uffern, ac iddynt ddywedyd eu bod, ac iddo ofyn iddynt pa'r fath lywodraeth oedd ganthynt yn eu mysg eu hunain ac iddynt roddi eyfri or fath lywodraeth neu reolaeth oedd ganthynt, a bod ganthynt bennaeth oedd yn cyfanneddu yn yr awyr eithr'r hyfpyfrwydd a roefant or drefn ar lywodraeth oedd ganthynt yn ei mysg a wnaeth in Gweinidog, ofni'n fwy nac or blaen, mae Cythrauliaid oeddent, er nad oedd yn gallu gwneuthur ir Dŷn gnedu hynny; Eithr ynghylch dau fis, neu dri, ar ol hynny, y mae'r Gweinidog yn dywedyd, ir dŷn ddyfod atto a dywedyd, y dymmunafau pe buafau iddo gymmeryd ei gyngor ef, O herwydd gwneuthur o hono yr hyn a gofliau i fywyd iddo O herwydd iddo fyned ymmhellach i ganlyn y rheolau, oedd yn ei Lyfr cythraeulig, a bod iddo ar ol galw'r cyfryw yfprydion, ofyn iddynt pa enwau oedd arnynt, fal y gallau wneuthur iddynt ymddangos pan y byddau yn chwennych, ond yn y diwedd daethant, eu ymddangos iddo yn fynychach nac y mynafau, a hynny heb i gwahodd, ac ar nofwaith iddo dybied y buafau iddynt eu larpio ef; au bod yn ymddangos megis Seirph, Arthod, a Llewod, dychrynol, au bod yn taflu pellenau o dân atto ef, ac nad wyddau or awr i gilidd y byddau iddo gael ei chwalu ganthynt, ac nid oedd yn gallu i daroftwng hwynt, ymmha gyflwr y bu o haner nôs nes'r ydoedd yn dyddhau, yn aros yn ei gylch neu (*Circle*) oedd gantho, ymmha amfer y gadawfant ef, a bu iddo fod mewn cyflwr truenus iawn, tra fu byw ar ol hynny. eithr yr oedd yn dywedyd na wneuthau erioed un math o gytammod a hwynt, ac yr oedd yn ymddangos yn Edifeiriol iawn oblegid ei bechod, chwi allwch weled y llythyr hwn mewn utodd helaethach yn Llyfr Mr. *Beumont* dalen. 296. 297.

Y mae Hanes arall yn breintiedig o berthyd Dŷn

iefangc

ieſan gc o oedran 29 oedd yn glaſ i ba un yr ymddangoſſodd yſpryd mewn gwiſg wen ddiſclair, hyd o nid oedd yn goleuo'r Stafell, ymmha un yr oedd y dŷn claſ, ac y gyffyrddodd ac ef ac ai iachaoedd ef, ac a archodd ir dŷn arferyd ffurf o Weddi, pa un oedd a geiriau da ynthi, eithr fod yn rhaid iddo fyned i ddywedyd neu adrodd y cyfryw weddi wrth ddrws y garghell, &c. Ac ar yr amſerau oedd'n erchi iddo ac yr oedd yn erchu iddo annog dynion i edifarhau, ac i ymadel ar beiau eithr fel y mae ychydig, o wenwyn, yn fawr i berigl, er rhoddi llawer o Sugar iw felyſſu; Felly er bod y dŷn hwn, wedi cael i annog gan y cyfryw Yſpryd i gyflawni rhai pethau da, ar ddibenion drwg twyllodrus, felly efe oedd ynghyd ar rhain wedi erchu iddo newid y Sabboth, a rhai pethau cyfeiliornus eraill, ac er dim a'r oedd y Gweinidog oedd yn y lle hwnnw a gwyr da eraill yn ſalu i wneuthur, nid oedd yn gallu attal dynion rhag canlyn y cyfryw un, trwy gymmeryd i ſyny fath o grefydd newydd, a thybied mae Prophwyd didwyll ydoedd, nes yn y diwedd iddynt glywaid fod eu Prophwyd oedd yn ei hannog hwy i fod yn *Sanctaidd* ac yn ddiwair i hunan, yn cuog o odineb.

Gellwch weled yn Llyfr Mr. *Glanvail*, yr hwn a elwir *Saduciſmus Triumphatus* yr ail rhan or argraphiad diweddaf dalen 245. Lle mae yn crybwyll ynghylch Gwyddel a amcanodd yr Yſprydion y maent yn alw'n *Dylwyth teg* ei gymmeryd gyda hwynt oi anfodd; bu ar brydnhawngwaith ir dyn hwn, ac yntau ar i Sirwrnau neu daith, ganfod megis cwmpaini o ddynion yn Gwledda ar ganol maes, pan y daeth attynt, hwy a godaſant i gyfarch iddo, *eithr daeth* un o honynt atto, ac a archodd iddo, na *chymcamau* wneuthur dim ar y geiſiau't cwmpaini *hynny* gartho, o *herwydd hynny* pallodd eiſtedd gyda *hwynt*, ar ol *hynny* dywau hwſ e neu lais cerddoriaeth *gan hynt*, a *cheiſiaſant gantho ddyfod* i ddawnſio gyda hwynt, eithr amheuodd fyned, eithr ar ol iddo ballu cyflawni dim ar oeddent yn cu geiſio gantho, diflanaſant ymaith, a dychwelodd y dŷn tu a chartref, *eithr* y nôs honno daeth un or cyfryw Yſprydion, at

erchwyn

erchwyn i weld ef gan ddywedyd wrtho, os byddau iddo fyned allan o'r t,ŷ y diwrnod nesa, y byddau iddo gael i gymmeryd ymaith, yr hyn a wnaeth ir dyn gadw o fewn ir tŷ, hyd oni bu iddo anturio myned allan i wneuthur dwr, ond cyn gynted ac y fangodd tros y trothwy, cafodd i gymmeryd ymaith, etto er hynny fe gafwyd gafel yntho, ac fe gadwyd y diwrnod hwnnw, ond y nosfon honno daeth yr un Yſpryd atto, ac y ddywedodd wrtho y byddau ef ſiccr o gael ei gymmeryd ymaith tranoeth, yr hyn a wnaeth i rai dynion ddyfod ynghyd i geiſio i gadw ef, yn myſg pa rai yr oedd dau *Eſgob*, a rhai gwyr hynod eraill, yn nhy *Iarll Oroyry*, pa un oedd wedi ceiſio cael y cyſtryw ddŷn, iw dŷ ef, wrth glywaid y fath bethau dierth am dano ef, efe a gafodd y dyn lonydd nes ydoedd yn Prydnhawn, ymmha amſer y canfyddent ef yn dechreu codi oddiwrth y llawr yr hyn a wnaeth ei ddau o ddynion grymmus gymmeryd gafel o ddautu iddo, i gadw, eithr hwy oeddent yn rhu weinion *nes fe ddygwyd oddiarnynt ac y godwyd i fynu* uwch eu penau, ond yn y diwedd gollyngaſant ef i lawr heb gael fawr newid, ond y noſwaith nesaf bu ir Yſpryd hwnnw ddyfod atto drachefn, a dywedyd wrtho, y cafau lonydd rhagllaw, ond y cafau i ſlino gan fath o Bangau neu lywygion, a bod gantho mewn cwppan fath o ddiod yn dy-

ſod iw gynnig iddo, tuacat ei helpu or cyfryw lywygion. ond bu ir dŷn amau cymmeryd y ddiod gan yr Yſpryd, er hyn eſe a ddywedodd ſod gantho ef gymwynaſgarwch iddo ac a archodd iddo yſed ſudd gwraidd dail llydain y ffordd, ac y gwellau o un math o (ffittau) neu lywygion oedd yn i ſlino, *&c.* Dywedodd mae ef oedd or cynta wedi i rhybyddio ef i beidio a chyſlawni dim ar oedd yr Yſprydion eraill yn ei geiſio gantho, *&c.*

Dywedodd pe buaſai i'r dŷn waſanaethu Duw yn ddiwyd na fuaſau iddo gael i ſlino gan y cyfryw Yſprydion, a dywedodd *wrtho eu* fyned ef allan y boreu *hwnnw* heb Weddio ar Dduw, ai ſod ef hefyd yn myned ar neges anghyfreithlon ſef i ymofyn pa'r o *Gardiau.*

Y mae crybwylliad mewn llyfr bychana elwir *The Kingdom of Darkneſs* o berthyd dŷn a gafodd i gymmeryd ymaith gan y fath Yſprydion, ac fe oſodwyd Gweddi ac erfyniad at Dduw troſto ef, a bu iddynt ei fwrw oddiwrthynt, a dychwelodd adref, gollyngaſant ef oddiwrthynt yn y cyfamſer ac yr oedd erfyniad gwedi ei oſſod troſto, y mae drachefn yn crybwyll ynghylch Bennyw, a gymmerwyd ymaith gan y fath yſprydion, ac iddynt ei chadw hi gyda hwynt flwyddyn ac wedyn iddi ddychwelyd adref ai bod yn wân i pwyll. Meddyliwch y dychon rhai na bytho yn ddewiniaid gael

Llyfrau a Phrofuran Dewiniaid

gael ei *blino* gan y cyfryw Yſprydion ac a allant fod yn ymddangos *iddynt* er na *bythont* oi *bodd yn ymgyfrinachu* a hwynt fel y mae'r Dewiniaid, y mae rhai dynion anwybodus *yn tybied* fod gan *Gonſyrwyr* awdurdod a llywodraeth tros y cythraeuliaid *yr hyn ſydd* gamſynied, O *herwydd* fod llywodraeth gan *y* cythraeuliaid tros y *cyfryw* ac ni *ddychon y cyfryw* rhai fod ond caethweiſion ir cythrael ac nid *ydyw'r Llyfrau ſydd* ganthynt ond *Llyfrau* a *thraddodiadau* o wneuthuriad y cythraul ei hunan ac *ſydd yn* rhoddi rheolau *iddynt* pa'r *fodd* i ymgyfamodi ac ef, ond heblaw *hyn*, y mae math arall o bobl, er nad *ydynt* wedi gwneuthur cyfammod, a *Phromiſhion oddiallan* ar Diafol, etto mae ef *yn dyſod* i *gyſlawni* dymmuniadau'r *cyfryw* rai ac a fytho *yn arferyd* gwerſau, a *thraddodiadau*, o *eiddo'r* cythraul ei hunan ac *nid ydyw* ond peth arferol *iddo ddyfod* i gyfarfod ar *cyfryw* rai ac *ſydd yn ſychedu* ar ol dewiniaeth, pa rai *ſy'n* ddigon ſicr, trwy fod *yn* arfer traddodiadru drwg yn cadw math o gymmundeb neu (*Goreſpondence*) ar Diafol, er eu bod mewn *ffordd* mwy anamlwg na'r lleill, ac er na *ddychon* y Diafol, mor hawdd *dynnu* llawer ar hyd *y llwybr* anferth *hwnnw* o fod yn *ymgyfammodi* ac ef, fel *Fauxſtus* ac eraill, etto er *hynny y* mae gantho ef rwydau anhawdd *yw* canfod ac *y tybiau* rai nad oes niweid ar *y ddaiar ynt hyny*, etto er *hynny yn* arwain tu a'r pydew di-

waelod, mae rhai Llyfrau Uffernol yn dangos, pa draddodiadau drwg ei harferyd tuacat wneuthur drwg, a niweid, ir rhai a fytho gwedi gwneuthur drwg, a niweid, iddynt hwythau; megis pan y bytho Swynwyr, neu hudoliaid, trwy arferyd traddodiadau drwg, yn gwneuthur drwg i ddyn neu *annifail*, dangosant drachefn pa *draddodiadau* drwg, neu (*Counter Practices*) yw harferyd tuacat ymddial ar yr hudoles neu'r Swynwr a gwneuthur niwaid i *ddynt hwythau* drachefn, a'i gosfod yn yr un gyfrwr ac yr *oeddent* hwythau gwedi gosfod y dyn, neu *annifail* a fythont gwedi eu rheibio, *Hawdd* gan lawer fyned eu harfer *traddodiadau* drwg, heb wybod pa'r beth y maent yn eu wneuthur, eithr fe wyr y Diafol, dy fod trwy *ymddial* yn diniftro dy Enaid dy hun. *Hawdd* gan y Diafol *dayfod* i gyfarfod ar rhai a fytho ef yn i gael yn i *ffyrdd* ei hun; dangosfodd un om cymmydogion Bappyr *oedd* gantho pa un *oedd* yn erchu lle *byddau ddynion* neu anifeiliaid wedi cael niwaid gan Swynwpr, neu hudoliaid, am gymeryd gwaed y dyn neu'r *annifail* a *fyddau* wedi cael niwaid, a Scrifennu ac ef *ffurf* o *Weddi* ar bappur ymmha *Weddi* yr *oedd* erfyniad yn cael ei wneuthur at Dduw, at yr Angylion, ac at St. *Petr*, ar fod *iddynt* ymddial trofto ar y *Swynwr*, neu'r hudol, *&c.* y mae Mr. *Glanvail* yn mynegu pa draddodiau, a arferwyd yw wneuthnr a dwr Ben-

nyw oedd gwedi cael ei rheibio neu (*Witch*-) nes dwyn bywyd y Swynwr, a wnaeth- u niwaid *iddi*, *Saduciſmus Triamphatus Part* . *Page* 206. 207.

Rhai eraill hwy a dybiant fod yn *ddda i-* *ddynt* gael peth o waed, yr hudoles, pan y- bytho'r cyfryw un gwedi ei rheibio hwynt, neu os gwelant ryw beth allan y maent yn i alw yn *Fenyn* Witch; hwy a ddodant binau yntho, neu hauarn poeth, neu hwy a loſgant gabon, neu glinſtiau'r Annifail, a ſytho gwedi ei Rheibio fel y bytho ir Diafol trwy'r traddodiadau drwg Cythraelig hyn, wneuthur drwg in *Witch*, neu'r hudoles, fel y bu *iddi* hithau or blaen trwy eu *traddodiadau* drwg, wneuthur anniwaid iddynt hwythau: Eithrgocheled pawb rag arfer y fath arferion Cythraelig, a phechadurus.

Arferi rhai dynion pan y bytho Swynwyr neu hudoliaid wedi cael *cennad* i wneuthur niwaid *iddynt* hwy neu yw *hannifeiliaid* hwy a ânt at Swynwyr a hudoliaid am help ac ymwared, y cyfryw ddynion ydynt yn ceiſio arfogi eu hunain a tharian y Diafol yn erbyn piccellau'r Diafol, eithr pa'r beth a wnawn *meddant beth* a wnewch? *ymmeryd Tarian y ffydd, fel y gallech wrth ſefyll yn erbyn piccellau tanllyd y fall*: nid os neb a all wneuthur yn eich herbyn fwy nac y *ddylech* eu fadden, ac nid allwch fod yn maddeu tra fyth och yn ymddial.

Eithr fe a ddywaid rhai dynion pa'r fodd y dychon Conſurwyr, fwrw allan gythreuliaid or neb a fydd gwedi eu meddiannu ganthynt, gan na fydd i Satan ddiniſtrio ei deyrnas ei hun, yr wyf yn *Atteb* nad wyfi'n gwybod pa mor belled y dychon y Diafol Ufuddhau ir Conſurwyr, er mwyn ei dynny ef, ac eraill a ddelo atto, i *anufuddhau* i Dduw, eithr mi a wn nad Swynwyr y byd a ddychon wneuthur iddo gyflawni dim ar a fytho da, o nis gwnaf ar *ddiben ddrwg* ond nid allais erto gael dim Siccrwydd fod dewiniaid a Swynwyr yn bwrw Satan *allan* or *neb* a fyddau gwedi eu *meddiannu* gantho, ac lle byddau neb gwedi eu *meddiannu* da a fyddau ir cyfryw rai neu yw tylwyth *'n lle myned* i geiſio cynorthwy'r Diafol Gelyn Enaid a chorph, eithr myned at Dduw, ceidwad Enaid a chorph, yr ydwyf yn gwybod fod Offeiriaid y Papiſtiaid, yn hauru, eu bod hwy trwy Weddio, ac ymprydio, yn bwrw allan gythraeuliaid, eithr gan eu bod yn arfer Gweddio ar *Seinctiau*, ac *Angylion* heblaw Gweddio ar Dduw, ac yn arferyd ofergoelion, y mae yn hawſach gennyf goelio, yr hyn y mae *Cotten Mather* wedi i oſſod allan, ynghylch rhai oedd hudoliaid wedi goſſod y Diafol i wneuthur niwaid iddynt a bod y Diafol gwedi meddiannu cyrph rhai o honynt eithr pan y byddau ir cynlleidfâodd nen'r Eglwyſ oedd yno oſſod Gweddi tro-

ſtynn

ſtynt at Dduw yn mhen y drydydd waith yr ympryd-ient ac y gweddient y hyddent yn arferol o gael ei gwared ac y byddau'r Diafol yn myned allan or rhai a fyddau gwedi meddiannu gantho, *Gwrthnebwch y Diafol, ac efe a ffo oddiwrthych medd y Scrythur Sago 4. 7.* Y mae *Cotten Mather* yn crybwyll ynghylch un *Margaret Rule* oedd yn aros mewn lle a elwir *Boſton*, yn Lloegr Newydd; Mae yn dangos fel y daeth y Diafol atti a llyfr gantho, ac yn erchu iddi Scrifenni ei henw yntho neu or hyn lleiaf gyffwrdd ac ef, megis arwydd eu bod yn ymrwymo eu hod yn wasanaeth ferch iddo ef, yr hyn amheuodd hi i wneuthur, yn y cyfamſer poenodd hi yn ddirfawr ac mae'n dangos fel y cododd y Diafol hi i fyny, yn erbyn (*ceiling*) y ſtafell, a bu lawer o orchell ei chael hi i law:, y mae'n dywedyd hefyd he blaw'r cythreuliaid oedd yn ei dirfawr boeni hi, y byddau Yſpryd arall, mewn gwiſg ddiſglair yn mynych ddyfod atti yw chyſuro hi ac yn erchi iddi ymgyffuro yn ei Duw, ac na fyddau iddi (*gomplio*) neu blygu i brofedigaethau ei gelynion, pan ydoedd gwedi parhau mewn poenau ynghylch pum wythnos, daeth yr Yſpryd hwn, atti, (ſef Angel dâ mae'n debygol,) ac a ddywedodd wrthi fod y cyfryw ddŷn pa un a enwodd ef, wedi cadw'r drydydd ddiwrnod yn eu hachos hi, ac a archodd iddi fod yn gyffurus o herwydd y y byddau iddi yn ſu an gael ei gwared, ac felly y cafodd a rhai eraill, er bod rhai o honynt gwedi ei meddiannu gan Satan. Y mae Llyfr a elwir *The Suſſex Demoniack*, yn rhoddi hanes Rhyfeddol iawn ynghylch un *Richard Dugdale*, Gwr oedd yn *Lancaſhire*, gwedi ei feddianu gan y Diafol ac yn dangos fel yr ymprydiodd ac y gweddiodd cynulleidfa Griſtianogawl yn ei achos ef a bu ir Diafol fyned alla n o hono ef.

Y modd y gallwch wybod, os bydd y rhai a fytho allan o'u pwyll, gwedi eu meddiannu gan Satan, ſefos byddant yn chwedleua ieithoedd na ddyſgaſant, megis lladin, groeg, neu hebryw, neu'n cael gwared o biniau, neu hoelion, neu wybed, allan o'u cyrph, neu gael ei codi yn yr Awyr, yn eu geiriau nid allwch gael ganddynt ddywedyd eu bod yn ymwrthod a Satan a'i *holl weithredoedd*

thredoedd, na chyfaddeu fod ein Prynwr bendigedig yn Dduw ac yn Ddyn. &c.

Heblaw'r arferion drwg ſy'n cael ei harferyd, ynghylch pa rai y crybwyllais, y mae etto lawer ychwaneg ac ſydd anghytunol ar Scrythur, rhai y'nghymru ydyw myned au Plant a fytho yn anhwylus eu geiſio cael help ac iechyd iddynt at feddau, rhyw hên Seinctiau meddant hwy, y mae un or cyfryw feddau ymmhlwyf *Llanwenarth* yn Sir *Fynwy* pa un y maent yn ei alw'n Fedd *Gwen gu*, clywais fod un arall uwchlaw *Aberhonddu*, ac maent'n eu alw bedd *Ynid* wyf yn gwybod pa'r faint o ofergoelion ſy'n cael eu harferyd ganthynt: Eithr clywais eu bod yn *Llanwenarth* yn goſſod y plentyn gwedi'r nos ar y bedd, ac yn rhoddi bagad o ganhwyllau ewyr i loſgi o ddautu iddo, ac yn arferyd rhyw fath o draddodiadau Papiſtiaidd nad allaf roddi eglurhâd neu gyfri am danynt, y mae drachefn rai Seremoniau anghyfreithlon yn cael eu harferyd o ddautu rhai ffynhonau y'nghymru megis ffynnon Gwen frewi &c.

Ac fel hyn, y mae rhai dynion cyn yr elont yn ei cyfyngderau at yr Holl-alluog Dduw, am gynhorthwy ac ymwared, hwy ant ei mhofyn help a chyngorthwy at y Diafol, trwy fynd at Ddewiniaid, rhai eraill cyn yr elon at Dduw hwy ant at Eneidiau Dynion meirwon at ei beddau a'u crairiau ac at Seinctiau ac Angylion pa'r

beth

beth y mae'r cyfryw ddyhion yn i dybied un ai nid ydynt yn credu fod Duw, neu yn-rau ni chredant y dychon ef eu gwaredu, eithr o ddyn cais ddiſgwyl at Dduw yn unig ac os wyt mewn cyflwr anhwylus a elli ddywedyd gyda'r dyn gwahanglwyfus os mynny ti a elli fy 'nglanhau.

Weithian os ceiſiwch chwilio a allwch ganfod o ba'r le a pha'r fodd y daeth y fath draddodiadau, ac arferion drwg eu fyſg y Cymru or cyntaf, ac chwi a ellwch weled fod y rhan fwya o honynt wedi (*batchio*) a a dyfod o Uffern, ac o Rufain, a rhwng y Diafol a (*Phabau Rhufain* y mae Rhyfedi mawr o honynt trwy'r byd, am fod llawer o honynt wedi dyfod o Rufain gyſtal ac o Uffern; y mae'r Gweddiau ar erfyniadau anghyfreithlon fy'n cael ei gwneuthur at Seinctiau ac Angylion yn tyſtio hynny yn 'r ami Swyn-gyfareddion fy'n cael eu harferyd, ac y maent yn aros y'nghymru er pan y bu Pabyddiaeth yn nythu ynthi.

Mae etto llawer y ffyrdd yn cael eu harferyd eu ddewinio wrthynt, pa rai yn-thynt eu hunain nid allent roddi gwybodaeth i *neb* ynghylch pethau i ddyfod *ond* fel maent *yn* cael eu cyffroi au cynhyrfu *gan* y Diafol, rhai traddodiadau a Seremoniau drwg, ſydd yn myſg llawerodd ydyw arferyd Dewinio trwy daflu cnau i'r tan Nos Galan gauaf ei ddewinio pwy a fytho marw yr flwyddyn honno, taflu dail eiddew neu

a Common Practice but not very liberal

Diuiho etto

neu ei ddiau ir tân tuac ddewino wrthynt, taſſu eſgyrn ir tan tuacat ddewinio wrthynt pa un ai Mâb neu ferch a enir eu Wraig a fytho yn feichiog *&c.* Llawer rhai a ddychon fod yn arfer y fath draddodiadau heb feddwl yn y lleiaf eu bod trwg hynny yn gwneuthur ar fai ac yn cadw cyfrinach ar Diafol ac fe ddychon fod rhai yn cadw math o gymmundeb ar Diafol a hynny trwy ffordd guddiedig iddynt ei *hunain*, ſef trwy arfer y traddodiadau ar Gwerſau ar Swyngyfareddion a *drefnwyd gan* y *Diafol* ei *hunan* pa *un* ſydd *yn cynhyrfu'r cyfryw bethau* rhai *dynion* a dybiant y *cant* ryw aſſwydd os bydd i *Biogen Screcheu* nwch eu *pennau* neu yſgyfarnog *neu* wengci groeſſi'r llwybyr *neu'r* ffordd o'i blaen hwynt, ac y mae rhai *yn* tybied fod *yn ddigon* ſiccr fod aſſwydd *yn* dyfod ir cyfryw rai ac a fytho *yn* ofni'r fath ofergoelion, *ond na bydd* niwaid ar y ddaiar ir dŷn a fytho yn credu nad oes dim a ddigwydd iddo ond yr *hyn* a fytho Duw yn ei Rhagluniaeth *yn* eu drefnyd iddo, ac yn rhoddi ei hyder arno ac *yn* ddibriſio'r fath ofergoelion.

Hen arfer ddrwg Bapiſtiaidd arall ſydd *yn* myſg rhai ydyw gofod coed cerddin *neu Criafol* yn eu llafyrieu, au maeſydd, *&c.* Nôs glamau, ac yn bwriadu fod y fath arfer yn bendithio eu maeſydd yr hyn a ddylau Wedduyn well wrth *Athiſtiaid* a *Phaganiaid* nac wrth Griſtianogion, pa rai a ddylau

lau ddeall a chydnabod os y Duw Holl-alluog ſydd yn llwyddo eu maeſydd fel y mae'n ddcer efe ſydd, rhoddi'r clod iddo ef ac nid ei frigen certherinen.

Astrology.

Celfyddyd arall pa un y maent yn alw *Judicial Aſtrology*, neu Sywedyddawl farnedigaeth, pa un er fod rhai yn dala ac yn haeru eu bod yn gyfreithlon etto mae llawer yn ei herbyn ac yn bwriadu fod yr Scrythyrau fy'n canlyn yn gwarafyn y cyfryw un megis yn *Deut.* 18. 10, 11. *Ac mewn lleoedd eraill y maent yn bwriadu fod y Planedyddion yn cael i cyfri yn myſg Dewiniaid, darogan wyr, a brudwyr*, &c. Dan. 4. 7, 19, 18, 19. *Deut.* 18. *Gwelwch Adnod* 14. Canys y cenhedloedd hyn y rhai a feddienni di, a wrandawſant ar *Blanedyddion*, ac ar ddewiniaid, ond am dana ti nid felly y *caniattaodd* yr *Arglwydd* dy *Ddaw* i ti. *Deut.* 29. 29. *Dirgeledigaethau ſydd eiddo yr Arglwydd ein Duw, ar pethau amlwg a roddwyd i ni ac in Plant hyd byth. Eſay.* 37. 12, 13, 14. *Sef yn awr gyda'th Swynyddion a chyd ag amlder dy hudoliaethau yn y rhai'r ymſtinaiſt o'th ieuengtyd.* &c. *Ymſtinaiſt yn amlder dy gynghorion dy hun ſafed yn awr Aſtronomyddion y Nefoedd, y rhai a dremiant ar y Sẽr, y rhai a hyſpyſant y miſoedd, ac achubant di oddiwrth y pethau a ddeuant arnat wele hwy a fyddant fel Soſ, y Tân ai ſyſg hwynt ni waredant ei heinioes o feddiant y fflam* &c. Gwel y fath fwgythiad ofnadwy ſydd yma yn cael ei rhoddi lle dychon y rhai ſy

'n darllen

'n darllen *Teſni* eraill, ddarllen eu Teſni eu hunain, Gwelwch drachefn *Act.* 19. 18, 19. Yr awrhon dyma fagad o Scrythyrau eglur yn erbyn Aſtrology, a Sywedyddiaeth ac fe ddewaid y cyfryw rai ac ſydd yn gwrthnebu *Aſtrology*, nad ydyw'r Scrythyrau hynny y maent hwy yn eu dwyn ei geiſio pryſio, fod eu celfyddyd yn gyfreithlon yn perthynu dim iddynt, eithr ei bod gwedi gwyrdroi ac yn ei gwreſto.

Un lle or Scrythur y maent yn geiſio eu hauru fod oi hochor ſy'n *Gen.* 1. 14. I hyn y mae y rhai ſy'n gwrthnebu *Aſtrology* yn Atteb, ſef er fod Duw wedi goſſod y goleuadau Nefawl i fod yn arwyddion a bethau anghyntheidiol, ac a fytho yn gorphwys ar ei (*Courſe*) ai nattur, nid ellir dywedyd oddiwrth hyn, ei bod yn arwyddion o bethau damweiniol, gwelwch Lyfr Mr. *Perkins* y drydydd rau neu (*Volume*) Dalen. 621. &c.

Lle arall ſy'n *Job.* 31. 32, 33. Pa un ſy'n fwy yn ei herbyn, na chyda hwynt o herwydd nad oes neb a ddychon ddeall Ordeiniadau y Nefoedd, eithr fod Duw yn gweled fod yr dda gyda'r fath ddirgeloedd iddo ei hunan, ac heblaw hyn, pa'r beth ſydd yn yr Scrythur hon, ac ſydd yn pryſio, fod gan y Ser, lywodroeth ar feddylfryd, a gweithredoedd dynion, neu bod yn rhoddi gwybodaeth ynghylch pethau eu ddyfod.

Lle arall ſy'n *Matthew.* ynghylch y Se-

ren

ren a ymddangosodd ir doethion pan y ganwyd ein Iachawdwr, eithr dywaid gwithnebwyr *Astrology*, nad ydyw'r lle hwn ychwaith yn prifo, fod *Astrology* yn gyfreithlawn o herwydd nad seren naturiol y dodd eithr ei bod goruwch nattur gwelwch yr eglurhâd y mae Mr. *Burkit* wedi i wneuthur ar y lle hwn.

Y mae lle arall yn Llyfr y *Barnwyr* 5. 20. Pan yn maent yn bleidio oi hochor, eithr pa'r beth a allant i gasglu oddiwrth y lle hwn, ond bod Duw wedi gweled bod yn *dda*, adel a gwneuthur fod y fath gyfnewidiad anarferol yn y Ser, er mwyn ei *Sifera* fel y gallwch gan fod y gyffelyb beth mewn lleoedd eraill. 1 *Sam.* 6. 10. *Josua* 10. 12.

Y mae'r Planedyddion drachefn yn dywedyd, fod ei harferion yn gyfreithlon; O herwydd fod *Moses* i Gwedi ei *ddwyn* i fynu yn nysgeidiaeth yr Aipht, a *Daniel* yn nysgeidiaeth y *Caldeaid*, gwelwch ynghylch *Moses*, yn yr *Actau* 7. 22. Ac ynghylch *Daniel. Dan.* 1. 4. lle gallwch weled ei *Ddaniel* gael ei dwyn i fynu i ddysgu ar Llyfr, ac yn laith y *Caldeaid*, pech afraid iawn oedd ir ddau Brophwyd yma ymofyn Astrology, lle'r oeddent trwy ffyrdd gyfreithlawn yn rhagori ar y cyfryw, *Dan.* 1. 20. nid os y gair lleiaf fod un or ddau bwn da yr arfer *Astrology*, dyweded y *Planedyddion* os gallant pa ham na buasau *Daniel* yn arfer y cyfryw *gelfyddyd*, os *harferodd* hi er hoed pan

pan daeth i fywyd ef ac eraill i fod mewn prinder, eiſiau gwybod *breuddwyd* y Brenin *Dan.* 2. 13. Eithr os darllenwch y 17. 18, 19. Adnodau chwi a gewch weled pa'r *ſoddion oedd* ef yn ei harfer ſef *Gweddio* ar Dduw ac nid Tremio ar y Sèr.

Drachefn d'waid *rai* honynt fod *Solomon*, yn arfer Aſtrology, ymha pa'r lle y Siccrhaent hynny, neu py gallent ei Sicrhau pa'r berh a dalau *iddynt* gwedyn ni allwn fod yn *ddigon* ſiccr *iddo* gwympio ir pechod o Eulyn *addoliaeth*, pwy *oddiwrth* hynny a *ddychon* gaſglu fod *eulyn-addoliaeth* yn gyfreithlon, O herwydd *iddo* ef i arfer. Eithr yr wyf yn tybied, y dychon yr Scrythur hon yn *Deut.* 29. 29. Fod yn *ddigon*, ei dorri *gwddwg* yr holl reſymau, y mae rhai yn ei *roddi* o ochor *Judicial Aſtrology*.

Ac er fod rhai gwyr da yn hauru, y dychon *Judicial Aſtrology*, mewn rhan fod yn gyfreithlon trwy na fytho ir ſawl a'i canlyno ſyned tu hwynt ir terfynau a *ddylent*, etto mae'r rhan fwya yn goſſod yn erbyn y cyfryw rai, ac yn *dywedyd nad* yw'r cyfryw *gelfyddyd* ond (trap) neu rwyd, eu dynu dynion i fynd yn Gonſurwyr, ac mae'nddiammau, er nad ydyw er lles i neb, etto ei bod er diniſtr Miloedd, O herwydd fe ellir gweled nad oes nemor yn bod yn Gonſurwyr, heb fod yn gyntaf yn arfer *Judicial Aſtrology* yn diamau fod caren-

ydd

carenydd agos rhyngddynt.

Eithr fe ddywaid yr *Aſtrologers*, y dychon dyn gael llês mawr trwy ddyfod i ddeall, pa niwaid a ddychon fod ar eu fedr fel y gallo ef geiſio rhagflaeni'r cyfryw niweid neu berigl,

Atteb. Pa ham yntau na buaſau *Brenin Aſſiria*, yn peidio a delio a phlant Iſrael, fel d'wad y Prophwyd, y gwnau ef, a pha ham na buaſau *Judas*, yn gochelyd'r hun a gafodd ei rhybyddio yn ei gylch, neu'r Apoſtol *Petr* arno yntau yn peidio a gwadu ei *Brynwr*, ond o herwydd, nad ydyw'r gallu mewn dyn o hono ei hunan, ei beidio a chyflawni, yr hyn fy'n ddrwg; ac na ddychon ef gyflawni dim ac fydd dda, fel y dywaid ein Iachawdwr *hebddo ef nad allir gwneuthur dim.*

Gwir yw fe ddywaid dynion mae'r achos mwya pa ham y maent hwy yn myned ei geiſio gwybod eu *Teſni* yw neddant hwy er mwyn cael gwybodaeth, blaen llaw, or drwgfyd, neu'r hawddfyd, fydd ei ddyfod iddynt, eithr o ddyn yr unig ffordd ficcr i ti wybod hynny yw, trwy rhoddi heibio dy Lyfr *Teſni*, a chais Lyfr Duw yn llaw, fe ddengys hwn yn eglur ei bawb pa'r beth a ddaw, a rho heibio lyfrau'r Diafol; ac os bydd i ti ddarllen yr Scrythur Sanctaidd mewn modd parchedigdi a geu weled na fydd achos gennyt ei hiracthu yng hylch gwybod pa'r fodd y daw arnat, nid yn unig yn y byd hwn, eithr hefyd yn y byd a ddaw: mae hi'n dangos i ti dy berigl wrth nattur, a'r ffordd fydd o ymwared i ti. Allan o'th berigl, mae hi'n dangos fyned cwympiad allan rhyngod a'th Greawdwr, a pha'r fodd drachefn i gael ei heddwch ef, ac yn dangos i ti pa'r fodd i fod yn ddedwydd yn y byd hwn ar byd fydd i ddyfod. *&c.*

Gellur canfod ei un *George Withers*, wrth ddarllen a deall y bibl Sanctaidd, rhag-ddywedyd a mynegu, fel y daeth ar deyrnas Loegr, yn llawer amgenach, na'r holl *Aſtrologers*, gwelwch i Lyfr ef. Pa un a elwir *Brittain Remembrances.*

Peth arall a ddylyd ei yſtyried ſef pwy ydyw Awdr cyntaf *Aſtrology*, rhai a ddywedant mae Adda, eraill mae *Noa*, eraill mae Mab *Noa*, a rhai eraill yn dywedyd

nad

nad un or rhain oll; eithr mae'r Diafol ydyw'r Awdwr cyntaf o honi, gwelwch fel y mae *Kircher* yn Scrifennu, yr hwn oedd yn cael ei gyfri yn un or Yscolheigion mwyaf eiddyfg. Gwelwch i Lyfr ef yr hwn a elwir *Oedipus Ægyptiacus* yr ail Tome Chap. 3. P. 441. *&c.* Seq. Y mae yn crybwyll fod *Aſtrology*, a *Pholimancy* yn rhwydau neu faglau ſydd gan Satan, i ddal ac i faglu y cyfryw rai ac ſydd yn Sychedu, ar ol gwybodaeth anghyfreithlon, gwelwch fel y mae'n dangos mae'r Diafol ai traddododd or cyntaf ei un o feibion *Noah*.

Gwelwch drachefn fel y mae'r gwr dyſgedig hwnnw fef *Joſeph Glanvail*, yn honni yr un peth, medd ef pwy a wyr nad ydyw *Judicial Aſtrology*, wedi ei goſſod ar droed gan yr *helwyr Uffernawl*, i ddenu dynion ir rhwydau ſydd yn aros yn guddiedig tuhwynt iddi; er i fod ef hefyd or farn, y gallau hi fod mewn rhan yn ddiniweid ir ſawl a fyddau diwyd i ganfod pa mor belled y gallant ei harfer, mewn ffordd gyfreithlon; *Sadueiſmus, Triumphatus Part the 2 Page* 68 and 69. Eithr y mae rhai eraill yn dala nad ydyw mewn un rhan yn gyfreithlawn; ac y mae Mr. *Glanvail* yn bwriadu, a dychon ſtawet rhai fod y'nghyſgod y cyfryw un, yn arfer conſuriaeth, o herwydd medd ef mae'n ſicr fod rhai o honynt, yn rhagfanegu pethau dihwynt ei gyrhaeddyd *Judicial Aſtrology*, pa un ſydd gymmaint ei hanwadalwch, nid os dim lai na chwech o ffyrdd ei fwrw. *Addurn*, neu (*Scheme*,) ac ymmhob un or rhain fe ſydd yr achos ybyddent yn bwrw yn ei gylch yn gwahaniaethu, ac etto pob un or ffyrdd hyn yn gymmeradwy wrth reolau'r cyfryw gelfyddyd; ac fel y dychon cyfrinach guddiedig fod rhwng Swyrgyfareddwyr, a dewiniaid ar Diafol a hynny fe allau mewn ffordd anwybodawl i ddynr eu hunain, ond eu bod yn arferyd gwerſau, a thraddodiadau, na wyddant ei hunain, ei ha'r both y maent yn tueddu, felly mae'r gwr dyſgedig a enwais or blaen ſef *Kircher* yn Scrifennu y dychon ef wneuthur allan, fod y *Judicial Aſtrology* neu farnedigawl Swyddyddiaeth pa un ſy'n cael ei harfer yn y dyddiau hyn, at ſydd yn perthynu tuacat fwrw ynghylch *Jeſu*, a ganedigaethau

gaethau Dynion, yr hyn y maent yn arferol o'i alw'n (*Hoarary Queſtions.*) *yn Cymwys*

Hyd y dydd heddyw, yr un guddiedig gyfrinach ar Diafol, ac oedd yn yr amſe, gynt, yn myſg, Aſtronomyddion yr Ayffr. Fe ellir gwled ynghylch Gefeilliaid. a rhai a fytho yn genu tuacat yr un amſer, neu'r un orig, fel od os gan y Sêr lywodraeth tros ddynion, pa'r fodd y mae'r plant a fytho yngeni yr un amſer, yr un o honynt *yn* byw'n hir, ar naill yn marw yn iefangc, yr un yn prifio i fod yn gyfoethog, ar naill yn dlawd, pa ham na byddau'r un peth yn canlyn, ir rhai a fytho yn geni yr un amſer od oes lywodraeth gan y Sêr, ar Planedau, ar ddynion; drachefn a ydych chwi yn tybied fod yrhai hynny tan yr un Planedau, a fytho lawer milo honynt ar yr un amſer yn cael ei lladd ar y maes, mewn Rhifelodd, drachefn y mae'r Aſtrologers, neu'r Planedyddion, yn dywedyd y bydd y cyfryw ddyn a fytho'n cael ei Enu tan y cyfryw ar cyfryw Blaned, y bydd gantho'r fath ar fath wynebpryd, ac y bydd or fath ar fath gorpholaeth, yr awrhon gwelwch mor anferth ydyw celwydd y dynion hyn, o herwydd, y mae holl agwedd neu ddull corpholaeth dyn gwedi ei oſod, nid yr amſer y mae yn cael ei Enu, ond pan y mae'n cael ffiurfio yn y groeth.

Eithr nid wyf yn gwybod ynghylch nymor ac fydd yn goſod mwy yn erbyn y

Gelfyddyd hon, na Mr. *Perkins* gwelwch y drydydd *Volume* neu rân *Dalen* 635. y mae yn ceiſio annog dynion eu beidio ac arfer *Prognoſtications* neu Ddaroganau;

O herwydd fod y Scrythyrau yn eu warafyn, ac y mae yn dywedyd iddo efe i huuan arferyd *Aſtrology*, nes ei Dduw weled bod yn dda, ddatguddio iddo'r halogrwydd oedd ynthi. *&c.* O herwydd hynny efe, ai rhoddodd heibio, ac y mae yn ceiſio annog eraill hefyd eu wneuthur felly, o herwydd nad ydyw yr fath Gelfyddyd er gogoniant ei Dduw, nac er lles ei ddyn, ac mae'n dywedyd mae cyfrwyſtra'r *Diafol* ydyw gwneuthur y fath gelfyddyd mor hyfryd, it *rhai* au cymmeryſſ yn llaw, fel mai braidd y cymmerant eu perſwadio eu adel heibio'r fath Gelfyddyd, pa un ſydd cyn belled oddiwrth adeiladu creſydd, ac ofn *Duw*, au bod yn rhwyſt'r eu bod un or ddau; y mae *Luther*, *Auguſtine*, *Calvin* ac eraill ſydd yn goſſod yn erbyn y gelfyddyd hon gwelwch *Auguſtin*, *Tom.* 5. c. 29.

Mor ddiwyd y maent yn ceiſio gweitho'r goſſadwriaeth am ragluniaeth *Duw* allan or wlâd, trwy ddywedyd mai'r Sêr ſy'n dwyn y cyfan o ddautu trwy'r byd, a thrwy beru i dynion gredu fod rhyw ddiwrnodau yn groes eiddynt ddechreu rhyw orchwylion pwyſfawr arnynt a gwneuthur eu ddynion gredu fod amſerau or Lleuadd ſydd well nai gilidd. *&c.* Fel y mae *Erra Pater* a Sywedyddion eraill yn haeru od oes rhai o honoch ar cyfryw Lyfrau yn eich Teiau da y gwnewch ei rhoddi ir tân fel na bythont yn llygru *eich* plant *a'ch Tylwyth* ar *eich* ol, nid oedd ar y Cymru eiſiau Llyfrau ar fath yu eu myſg pa rai ydynt yn rhu dueddol eu arfer traddodiadau gwahariddedig heb eu dyſgu au *hanog*.

Ac ynghylch yr Arwyddion y maent yn *haeru* fod yn *rheoli* yn *Nghorph* dyn ac Anifail y mae llawer yn dywedyd nad ydynt ond *hen* Hiſtoriau celwyddog.

Eithr gwelwch beth y mae *Duw* yn ei *Orchymmyn*. *Jer.* 10. 2. Na ddyſgwch ffordd y cenhedloedd ac nac ofnwch Arwyddion y Nefoedd canys y cenhedloedd au *hofnant hwynt* yr awron *ceiſiwch* yſtyried faint yw'r perigl o fod yn euog or peth a *fytho* Duw yn ei warafyu; *Gwelwch Galatiaid*. 4. 10, 11. Cadw'r *ydych* ddiwrnodau

nodau a miſoedd, ac amſerau, a blynyddoedd, y mae arnaf ofn am danoch rhag im boem wrthych yn ofer. *Jobn.* 31. 26, 27, 18. Hefyd y mae'n *Deut.* 18. 10, 11. Yn eglur yn gwaraſyn yr arfer *hon rhai* dynion i wy a ddymunant ar ſod eu Dduw eu dala ar awr dda er nad oes un awr yn ddrwg os gallu ſod yn ddyn da afraid i ti ofni awr ddrwg.

Gwrthres. Nid yw Sywedyddiou ond dywedyd ſod y Planedau yn ail *Achoſion* or hyn *a fytho* yn digwydd,

Atteb. Eithr pa'r lle y prifiant hynny mae'r Scrythur yn dywedyd eu bod yn Arwyddion eithr o ba'r bethau o ddyddiau *wythnoſau* miſoedd a flynyddoedd, *Gen.* 1. nid ydyw yr lle hwn yn dywedyd ei bod yn Achoſion eithr Arwyddion, pa'r le y prifiant ſod yr holl gyfnewidiadau ar *holl* ddigwyddiadau ac lydd yn y bŷd yn cael eidwyn o ddautu trwy'r lywodraeth y Sêr-ſel y maent hwy yn haeru.

Yſtyriwch ymmhellach ſod yn debygol ſod *Judicial Aſtrology* wedi bod yn gywir waſanaeth-ferch yn Nheyrnas y tywyllwch, o herwydd pan *aeth* dynion i beidio a *rhoddi* eu hyder ar Ragluniaeth Duw ac i ſwriadu mae'r Sêr oedd yn rheoli'r bŷd ymwrthodaſant ar gwir Dduw a throeſant i addoli'r Sêr, ac haul, ar Planedau, ac ei wneuthur Duwiau o honynt, ac i addoli'r Creaduriaid, yn lle'r Creawdwr, Hyd onid ydyw dyddiau yr wythnos hyd y dydd *heddyw*, yn cael eu henwi, ar Enw'r Planedau, megis dydd Llyn, neu dydd Lleuad, *Mrwrth, Mercher, Iau. &c.* Ie ma rhai y'nghymru yn *rhoddi* yr enw Duw Llun, neu Duw *Mawrth. &c. Hyd heddyw eithr* gwelwch ſod y Scrythur yn Enwi dyddiau'r wythnos y dydd cynta, ar ail, ar drydyd, *&c.* Mae yn debyg ir Cymru ddyſgu gan y Saiſon, alw dyddiau'r wythnos ar enwau'r Planedau, O herwydd cyn ir Saiſon droi yu Griſtnogion. hwy a oeddent yn Addoli'r Planedau.

Y neb a 'wllyſau ddarllen ychwaneg ynghylch y Gelfyddyd *hon*, gwelent Lyfr Mr. *Perkins*, y drydydd Volume *Dalen.* 65. 3. Pa un ſydd yn gwaraſyn nid yn unig fynod i mhotyn yr hyn a goller trwy'r cyfryw gelfyddyd, eithr y mae yn dywedyd ſod yn anghytunol arfer

Prog-

Crynodeb byr, or pethau ſy'n gynhwyſedig yn y Llyfr hwn ar gân, O waith ——— (r bai

MEddyliwch Gymru hawddgar, a gwelwch faint yw
O fyned at Ddewiniaid, a phawb or cyfryw rai-
Sy'n ddrwg Gonſyrwyr aſlan, wrth mhoſyn a hwynt hwy
Nid allwch chwi fodloni, y Diawl mewn dim yn fwy.
Ni wnaeth y Diawſliaid Duon, ddim da i neb erioed
Nis gwant hwy byth drachefn, tra fytho'r byd'n bod.
Caeth weiſion yw'r Swynyddion, ſydd gan y *Diawl* an-
Ei geiſio tynnu Dynion, ei dorri Deddfau eu Duw. (*ſuw,*
Pe collyt faint ſydd gennit, o olyd yn y byd,
A cholli 'th fywyd hefyd ar maint a feddu yngbyd,
Gwell i ti golli'th fywyd a'th olyd hefyd clyw.
Nac i ti fyn'd ei dorri pur ddeddfau dy anwyl Dduw.
Mae Duw yn ei air yn gwrafyn mhoſyn dim ar ſawl,
Sy'n dilin ac yn canlyn ffraidd ffyrdd y *Diawl*
Mae'n gwrafin, i ni ganlyn na mhoſyn dim a'r rhai,
Sy'n ddrwg Ddewiniaid aſlan, nid bychan ydyw'r bai
Mor gynted a aiff y Cerlyn, pan collo rhan oi dda,
i mhoſyn hwy at y Dewin, er cymaint yw ei blâ,
Mie'n wir mae yn ddrwg lledratta. ond *mae'n ddrwg ſy*
It fyned at Ddewiniaid ei mhoſyn dim a nhwy. (wy,
I'th Enaid, na wna niweid wrth fyned yn ddinâ,
Trwy foddion anghyfreithlon, ei weled pwy aeth a'th ddâ
Yr wyt'n dywedyd hefyd, pa'r fendith all y ſawl,
Eu ddiſgwyl ar yr Yſpail, a ddel trwy ddwylo'r diawl.
Pa'r fodd na ddaw a Melldith, ar bob ceinagwerth fydd,
Yn bod o fewn i'th feddiant, cais feddwl hun'n brudd.
Dy ddylaid di yw maddeu, pan wneler a thi gam,
Nid ceiſio gan Gonſyrwyr natu neb a nam.
Mae cariad Duw ai heddwch, yn fwy o gyffur clŷd,
Na meddu yr holl fyrddiynau, o bethau ſy'n y byd.
Cais weled faint yw'th berigl, fynd at y cythraul cas,
Pa gyflog mae'n i mhoſyn, am fod i ti yn wâs,
Bydd i ti'n was gwyllyſgar, cais feddwl hyn o ddyn,
Os gall dy gael trwy hynny, yn gaethwas iddo ei hun,
Wrth geiſio help y Diafol, ynwrthod 'rwyt a Chriſt,
A thorri'r Addunedd, 'r hyn ſydd doſt a thriſt,
A wnaethywyd yn dy Fedydd, pa mor aneddwydd yw?
It dd'wio dy Greawdwyr, a thorri Deddfau 'th Dduw,

Cais

Cais feddwl Gymro angwyl, nad ydyw'r Cythraul cáe
Ond Gelyn sydd'n canlyn, pob dyn sydd ar y dda'r,
Y mae'n tawr ei awydd "ch gael'n danwydd prudd,
Ei losgi'n fawr dy loesau'n Uffern nôs a dydd.
Nid yw yn arfer gorphwys un amser ddydd na Nôs,
Ond gwthio pawb ec allo, ir prudd Uffern ol ffôs,
Fe wyr at ba'r beth cnawdol mae'th gariad diln bod,
Fe ymcan'o dra rhyfeddol, trwy rheini drippo'th droed
Trwy'r peth a fyddech fwya'n, ei Serchu'n anfuw,
Trwy hwn fe ymcan dy dynny, ei dorri *Deddfau'th Dduw*
Fe ddwaid geiriau'r Scrythur, y bydd ir Swynwyr cás,
Sy'n cyrchu at y cythraul lwyr gael eu cau ei más
Ot deyrnas fawr ei hyrddas, y Nefoedd, Neuadd lán,
Hwy a fyrthi'n gyda Satan, ir llyn fy'n llawn o dán,
Gwir yw y gall y Swyn-wyr, ar Cwnlyrwyr *o bob rhyw*,
Hwy allant gael maddeuant, os troant hwy at Dduw,
Ond iddynt llwyr ymwrthod ai pechod, drwg ei rán,
Cant weld fod gobaith helaeth rhoot chwilio'r Scrythur
Gall y pechadur bryntaf ac fydd ei weld ei más, (lán
Gael bywyd a thrugaredd, os nâd ai bechod cas.
Os yw'n cywyr gredu Nghrist ei ddaionus Dduw.
A ymroi ei fyw'n ol ei 'wyllys'n ddilus tra fo byw,
Ac os bu'i neb fyued heb yltyried taint yw'r drwg,
Ei geisio help Swynyddion 'tiseddion tan a mwg,
Heb feddwl faint yw'r niwaid fynd at y Diawl anfuw,
Ond mynd trwy anwybodaeth i dorri deddfau ei Duw.
O ceisiant ddwys Diseitiant fuddella at arnynt hwy,
Trwy ras ymroont ond bynny na bo iddynt bechu mwy,
Or fath bechodau atcas pe byddau i'ch bywyd clyd,
Yn mynd ei gael ei golli a'ch golud oll ynghyd.
Meddyliwch Gymry hawddgar ei fod 'n beth led brydd,
Weld cymmaint o rhai ffiaidd'n eich mysg a fydd
Mor chwanog ŷnt *hwy* ei fyned at y Dewiniaid drwg,
Ei mhofyn âm ei ffortyn ei mor wrthyn yw eu gwg,
O brudded ydyw gweled rhai bydol yn rhoi eu hynd,
Yn gymmaint am gael gwybod beth gant yn byn o fyd.
Ond leied maent yn prisio neu bwyso ar ei taith
Beth ddel oi Cyrph au henaid ei dragwyddoldeb faith.
Ond o fynd at y Drygwr ei mhofyn drogan drwg,
Dyna't achos mwya fynycha ac a'th ddwg.

Ei ddyweid mae rhaid yw i ti gyflawni 'th defni câs,
Er y gallyt ei ochelyd ond i ti geisio grâs,
Di weli'n clymmau creulon fydd rhwng un drwg ar llall,
O waith myfi at y dewin i mholyn mor anghall.
Waith hym wyt yn fwy rhwyddus ei wneuthur yn *anfuw*
Y cyfan ary ddywedo heb brifio am ddigio *Duw*;
Nid Planed neu ddrwg dynged wna'th ddrwg'n *fwy neu*
Ar gein rhyw ddrwgfforttun nid elli'r roi dy fai, *lai*,
Y myrddwyr mwya hynod er maint eu pechod prydd,
Py fafaur fath wag esgus hwy allent fynd yn rhydd,
Dos neb eu Tynged gyfled nad rhaid ir cyfryw rai,
Ei dychwel ai hail enu cyn y caffant eu bai.
Na neb ai damwain cyn ddrwg na i Tynged o un rhyw,
Nad allant fod yn ddedwydd os ceifiant râs gan *Dduw*,
Beth bynna fo dy dynged nid yw'n anhaws ei *Dduw*,
Rhoi gallu i ti madel a'th ffiaidd ffyrdd anfuw,
Os pan del grâs ir finaid caiff y pechadur prudd,
O dan dywodraeth *Sattan* 'n fwre ei dynhy'n rhydd,
Os ydwyd'n dueddol ei fod yn Gybydd câs,
Puteiniwr drwg neu feddwyn or gwaetha ac fydd ei mâs,
Ar Dduw os gwir ddychweli tais gredu y dychon ei,
Oddiwrth bechu dy waredu a'th ddwyn i deyrnas Nef,
Fe gafoedd *Jofua* dduwiol trwy wir a bywiol ffydd,
Lwyr allu ei reoli pob Planed ac a fydd.
Cei allu arnat dithau ei gafau dy bechod câs,
Beth bynnag fo dy dynged os lletu ar Dduw am râs,
Mae'n ddrwg it ofni Planed na thynged o unrhyw,
Na phrifia pwy fo'th Elyn os cai ond heddwch Duw,
Na phrifia beth y gollehc os cai ond rhan y'Nghrift,
Trwy râs Mâb wyt ir *Bretin* pa ham y byddi'n drift,
Na chyfri'th hun'n ddedwydd pe gallyt lwyr fwynhau,
Y byd i gyd au *bethau* au *holl* blefferau brau.
Er cael pob *peth* trwy'r bydoedd di ddylyd fod'n drift,
Nes caffel rhan a ficcrwydd trwy ffydd'n Jefu Grift.
Os gallu fod yn ficcr o râs a heddwch Duw.
Er maint a fo'th gyftupdiau a'th loefau o bo[*rhyw*-
Py caut dy lâdd neu'th lofgi na fydd yn cyfri'th *han*,
Er cur uen'r croes ne'r cyftydd *byth* yn anedwydd ddŷn.
Os bydd i ti *byderu* ar dy anwyl *Dduw* or Nef,
Os bydd it geisio'n gyntaf ti dirion deyrnas ef,

Os

Os gwnau yn llawen felly di a fyddi'n llawer nes,
Heb gwilydd gael bob golud a fo goreu ar dy lês.
Y ſawl ſy'n gyfranogion o râs y cyfiawn Dduw,
Nad ofnent hwy drallodion trafferthul tra ſont byw,
Os Duw ai gwel'n orcu hwy gant ſlinderau prudd,
Er eu hattal hwy rhag pechu neu er profi ei ffydd,
Pan or fydd i ni ymddangos ger-bron cin Duw bob rhai
Ar gefen rhyw ddrwg-ffortun nid allwn rhoddi cin bai
Ond gorfydd cyfri'n gyfiawn ger bron y Duw or Nêf,
Pa renttau ſy or Talentau a gawſom gantho ef.
Ymroddwch bawb or Cymru nad eloch tra foch byw,
Ei mhofyn help at Swynwyr rhag i chwi ddigio Duw.
A cheiſiwch wir Ediſeirwch i chwi bob rhai or ſawl,
Nad oedd'n arfer 'mofyn un meddig ond y Diawl.
Nid yw'r Diawl ar Swynyddion ond meddygon toſt *difudd*
Nid allant helgu'th gleſyd ond trwy glwyfo dy enaid prudd
Tro at Dduw ymbob rhyw gyſtuddiau a phob *rhyw gur a phlâ*,
Y ſe ſy ar gallu ei leuſeu pan welo fod'n ddâ.

Rhai banefau gwirioneddol ynghylch rhai dynion a gafodd eu blino mewn modd ofnadwy gan Satan.

YR ydoedd dyn, ieuangc, pa un oedd wedi parhau mewn buchedd anrafol, etto pan daeth cyfyngderau am eu draws, daeth fel y Mâb Afradlon, u ddechreu cael golwg ar i drueni, eithr yn y cyfamſer, ymddangoſodd bagad o Gythreuliad iddo, ac dangoſſant ger ei fron Bortreiad, neu batrifaeth, or poenau ofnadwy ſy'n Uffern, trwy offod oi ffaen ef megis (fyrnais) neu (bayr) yn berwi o dan a Brwmſtan, mae debyg mae ar y diben eu geiſio ei ddodi ef ei Annobeith.

Yr ydwyf yn gwybod ynghylch dyn arall, i ba un yr ymddangoſoedd y Diafol, a dywedodd wrtho, mae i erddo ef ydoedd ef, ac a'i hannog oedd eu ymſoddi neu ymgrogi ac y byddau iddo ef eu helpu ef i wneuthur drwg iddo eu hunan eithr amheuodd y dyn wneuthur eu arch ef ac ymrhododd i adel heibio eu ffyrdd bechadurus, ac y mae'r dyn yr awron yn fyw, ac yn iach, ac wedi cael i wareu rhag y cyfryw brofedigaeth ac yn wynebu bod yn un ac ſydd yn ofni Duw,

Yr ydwyf yn gwybod yn ghylch dyn arall, ac a gaf-

odd

odd i ſlino gan Gythreuliaid, mewn modd dychrynol, yn gyntaf cafodd eu ſlino yn ei gwſg, yr un modd ar y bydd rhai yn cael eu blino gan yr *Hynllef*, ar ol hynny dauthant ſlino ef nid yn unig tra'r ydoedd yn cyſgu, eithr tra'r oedd yn ddihun, nid yn unig yn y nôs, eithr yn y dydd; cyn gynted yr eiſteddau neu aros yn llonydd ſe a ſyddau yn clywaid, rhyw beth yn cytwrth ac ef mewn modd teimladwy, ac weithiau yn deſgyn ar ei ben neu ar eu yſgwydd ef, er nad oedd dim ei ganfod, cyn gynted ac yr elau ei welu ſe a ſythau yn dyfod ac megis yn curo yr drwm tan eu ben ef, ac mewn modd teimladwy yn cyfwrth ai gluſt ef, ac pan y gaſſodan ei law ei geiſio cadw ei gluſtiau, ſe a Symmydau ac a ſlinau'r cluſt arall iddo, a byddau rhyw beth yn cerddedd ar hyd eu welu ef trwy'r nôs, er nad oedd dim i weled, etto byddau drwſt ac aneſmwythder i glywaid oddautu ei welu ef, fel yr oedd y ſawl oedd yn cyſgu gyda ef yn tiſtio a bu eu un oedd yn cyſgu gydag ef, gael ergid blin ar eu wyneb, un noſwaith, a byddau gwallt y dyn, yn cael eu glymmu, yn anneiryf droeon yn y nôs nes byddau tanoeth yn gorfod ei torri ymaith o herwydd nad allyt, ei fyſgu byddau yn fynych yn y dydd fel rhyw beth yn eſgyn er eu ddillad ef, ac yn myned trwy ei ddillad ef ac yn cytwrth a'i groen ef ac pan yr elau i weddio ar Ddduw ſe eſgynau ar ei dalcen ef etto mor Rhyfedd y bu iddo gael ei gynnal ai waredu, er bod ddydd a Nôs ymmyſgc Llewod Uffernawl, ac mae yn dywedyd fod yr yſtyriaethau ſy'n cynlyn er llawer o gyffur iddo.

1. Meddwl fod gallu Duw uwchlaw pob gallu, ac na ddychon y Diaſol, heb gael cennad wneuthur niwaid ir moch. *Marc.* 5. 12. 16.

2. Er cymmaint ydyw'r Profedigaethau a blinderau dyn, na ddychon hynny fod yn ſicrwydd fod Duw wedi ei wrthod ef.

3. Yſtyried fel y cafodd yr Arglwydd Jeſu ei demptio ei hunan, ac fel y cafod ei godi ai oſſod ar binacle y Deml, *Matth.* 3. 5,

Ac hetyd wrth ddarllen y Scrythyrau ſy'n canlyn, *Heb* 2. 18. 1 Cor. 10. 13.